Ymgynghori ynghylch Cynllun y Cyngor 2023-28: Adroddiad adborth

1. Crynodeb

Diben yr ymgynghoriad hwn oedd cael adborth gan bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ar gynllun drafft y Cyngor ar gyfer 2023-2028, er mwyn siapio Cynllun y Cyngor yn gynllun sy'n golygu rhywbeth i bawb yn ein cymunedau.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori o chwe wythnos, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â phobl, yn cynnwys arolwg ar-lein ac argraffedig, sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn y gymuned a chyfleoedd i gysylltu â ni drwy e-bost neu dros y ffôn. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo'n eang, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd o gyfathrebu â phobl.

Cafodd adborth o'n hymgynghoriad ni ei ddadansoddi'n fanwl a defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028.

Nododd y canfyddiadau nifer o themâu trawsbynciol, sydd wedi'u cynnwys ym mlaenoriaethau a datganiadau o ganlyniadau Cynllun y Cyngor. Mae'r adborth wedi ein galluogi ni i ddiffinio ein blaenoriaethau, mireinio datganiadau o ganlyniadau dan bob blaenoriaeth ac ystyried anghenion a dyheadau gwahanol grwpiau o bobl a gwahanol ardaloedd daearyddol ein Bwrdeistref Sirol. Bydd adborth o'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ein helpu ni i lywio'r ffyrdd y byddwn ni'n mesur cynnydd yn erbyn Cynllun newydd y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf.

Hoffem ddiolch i bawb wnaeth ein helpu ni i drefnu a hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys y gymuned, dosbarthu taflenni a phosteri ac a wnaeth ein helpu ni i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Yn bennaf oll, hoffem ddiolch i bawb am eu barn, eu syniadau, eu safbwyntiau ac am rannu eu profiadau o fyw yn eu cymunedau gyda ni, er mwyn ein helpu ni i lunio ein cynllun fel ei fod yn rhywbeth a all berthyn i ni i gyd.

Cytunodd y Cyngor llawn ar Gynllun y Cyngor 2023-2028 ym mis Rhagfyr 2023 ac mae bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2. Cyflwyniad / Pwrpas yr Ymgynghoriad

Yng Nghynllun y Cyngor rydym ni'n cyflwyno ein hamcanion lles a'n blaenoriaethau gwella sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn esbonio sut y bydd ein gweithgareddau a'n rhaglenni yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Nodau Lles Cymru.

Yng ngwanwyn 2023, roedd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam angen datblygu cynllun newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf (2023-2028).

Mae gan bobl yn ein cymunedau ni'r hawl i ddisgwyl i'r Cyngor ymgynghori ar y cynllun hwn ac mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i wneud hyn. Yn fwy na hyn, roeddem ni eisiau i bobl gymryd rhan fel y gallem ni lunio Cynllun y Cyngor sy'n golygu rhywbeth i bob un ohonom.

Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, cynlluniau presennol, a gweithio gydag Aelodau Etholedig, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam chwe blaenoriaeth drafft a chanlyniadau ategol, yr oeddem ni'n credu y byddai'n ein helpu ni i gyflawni'r blaenoriaethau yr oeddem ni wedi'u nodi.

Roeddem eisiau i'n cymunedau gymryd rhan i'n helpu ni siapio'r blaenoriaethau a'r amcanion drafft hyn fel bod Cynllun y Cyngor yn gallu perthyn i bob un ohonom a gweithredu'r pethau a fydd yn gwella cyfleoedd, lles a chydraddoldeb i bawb yn Wrecsam.

3. Methodoleg

Rydym ni wedi defnyddio amryw o ddulliau i gyfathrebu gyda phobl er mwyn cynnal yr ymgynghoriad hwn. Rydym ni wedi casglu data meintiol (lle gellir cyfri atebion sy'n ymateb i nifer o ddewisiadau ar gyfer cwestiwn) a data ansoddol (lle roeddem yn dadansoddi'r hyn yr oedd pobl wedi'i ddweud wrthym am eu barn a'u safbwyntiau).

Gofynnwyd i bobl os oedden nhw'n meddwl fod y blaenoriaethau drafft yr oeddem wedi'u hadnabod yn rhai cywir ar gyfer Cynllun y Cyngor 2023-2028 ac yna, drwy edrych ar bob blaenoriaeth yn ei dro, dyma ni'n gofyn i bobl os oedden nhw'n meddwl y byddai'r canlyniadau yr oeddem yn eu rhagdybio yn help i gyflawni ein blaenoriaeth. Ar gyfer pob blaenoriaeth dyma ni'n gofyn i bobl os oedd yna unrhyw beth pwysig yr oedden ni wedi anghofio ei gynnwys ac os oedd ganddyn nhw unrhyw adborth arall i ni am y flaenoriaeth yn gyffredinol.

Roedd rhai o'r canlyniadau y gwnaethon ni eu nodi dan bob blaenoriaeth yn amcanion cydraddoldeb hefyd, i'n helpu ni i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg, ac felly nodwyd yn glir iawn pa ganlyniadau drafft oedd hefyd yn amcanion cydraddoldeb (mae'r amcanion wedi'u hamlygu gyda sêr yn adran 5.2 isod).

Dyma ni'n gofyn a oedd bobl yn credu bod blaenoriaethau ac amcanion Cynllun y Cyngor drafft ar y cyfan yn trin pawb yn deg ac a oedd yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i wneud pethau'n decach i grwpiau neu unigolion. Dyma ni hefyd yn gofyn am syniadau ar sut y gallwn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg o ran cyflawni ein blaenoriaethau.

Dyma ni'n gofyn cwestiynau dewisol i'r rheiny sy'n llenwi'r arolwg fel ein bod yn gallu gweld lle mae safbwyntiau yn amrywio ac i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n deg i bawb.

I'n helpu ni i wella arolygon y byddwn yn eu cynnal yn y dyfodol rydym ni hefyd wedi gofyn cwestiynau am ba mor hawdd oedd ein harolwg i'w lenwi ac a ofynnwyd y cwestiynau cywir.

Er mwyn derbyn yr adborth dyma ni'n datblygu arolwg ar-lein, a dyma ni hefyd yn cynnig copi wedi'i argraffu, ar gael mewn ieithoedd a fformatau ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ôl cais. Dyma ni hefyd yn gwahodd pobl i'n he-bostio ni neu i gysylltu â ni dros y ffôn. Dyma ni'n cwrdd â grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr ar-lein ac mewn person.

Roedd arnom ni eisiau cyrraedd ystod eang o bobl ar draws ein cymunedau ac rydym wedi hyrwyddo ein hymgynghoriad yn eang, gan weithio gyda'n timau cyfathrebu a chyfryngau digidol a chreadigol i greu datganiadau i'r wasg a blogiau sy'n denu sylw, a thaflenni a deunyddiau hyrwyddo eraill atyniadol wedi'u printio. Bûm yn gweithio ar y cyd â swyddogion a thimau allweddol yn y Cyngor a gydag ystod eang o gysylltiadau yn lleol i estyn allan i bobl yn ein cymunedau.

Roedden ni eisiau pawb yn ein cymunedau i gael y cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o siapio Cynllun y Cyngor newydd fel bod ein cynllun terfynol yn gallu adlewyrchu ar amrywiaeth gyfoethog y bobl a'r ardaloedd daearyddol sydd wedi'u cynnwys yn ein cymunedau.

O'n hymgynghoriad rydym ni wedi cael adborth meintiol ac ansoddol llawn gwybodaeth ac rydym ni wedi'i ddadansoddi mewn manylder.

4. Yr hyn a wnaethom

Cafodd ein hymgynghoriad ei gynnal am chwe wythnos rhwng 1 Chwefror a 14 Mawrth 2023. Yn ystod yr amser hwn roedd gan bobl y cyfle i gymryd rhan mewn arolwg ar-lein, i anfon e-bost, ffonio, mynychu sesiwn ymrwymo yn y gymuned neu lenwi copi papur o'r arolwg.

Mae ein tîm cyfathrebu yn hyrwyddo ein hymgynghoriad trwy sianeli newyddion ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a newyddlenni cymunedol. Cafodd e-byst eu hanfon i grwpiau eirioli nodwedd warchodedig a grwpiau yn cynrychioli budd-ddeiliaid, er enghraifft busnesau lleol, Cynghorau Tref a Chymuned a'n fforwm tenantiaid. Dyma ni'n gweithio gyda'n tîm cyfranogiad pobl ifanc i hyrwyddo ein hymgynghoriad mewn lleoliadau ieuenctid ac mewn ysgolion. Cafodd gwybodaeth am ein hymgynghoriad ei rhannu gyda Chynghorwyr, staff, undebau llafur a gydag asiantaethau partner trwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam.

Aethom â phosteri, taflenni ac / neu gopïau papur o'n hymgynghoriad i ganolfannau clyd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, ysgolion, siopau cymunedol ac archfarchnadoedd, grwpiau ffydd, canolfannau galw heibio a chanolfannau cymunedol a dyma ni hefyd yn postio gwybodaeth ar hysbysfyrddau cymunedol.

Mae'r taflenni a'r posteri wedi galluogi pobl i sganio cod QR i gael mynediad i'r arolwg, yn hyrwyddo lle i fynd ar-lein i ddod o hyd i'r arolwg, a darparu rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer lle i fynd yn y gymuned i gael mynediad i ffurflen papur neu sut i wneud cais am gopi. Mae gwybodaeth wedi bod ar gael mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol ar gais, ac mae'r holl wybodaeth ar-lein wedi bod yn hygyrch ac yn cydweddu â darllenwyr dogfennau.

Dyma ni'n gwahodd yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i gynnal sesiwn ymrwymo neu i roi gwybod i ni am y grwpiau sy'n bodoli'n barod y gallwn ymweld â nhw yn eu cymuned. Dyma ni'n sgwrsio gyda grwpiau wrth i ni ddosbarthu'r wybodaeth gan wneud trefniadau ar gyfer sesiynau ymrwymo wyneb yn wyneb mewn grwpiau cymunedol dros y sir, i'w cynnal mewn sesiynau cymunedol sydd eisoes yn bodoli fel boreau coffi, dosbarthiadau ffitrwydd, dosbarthiadau celf, sesiynau galw heibio, canolfannau clyd, digwyddiadau cymunedol, clybiau bwyd, grwpiau ffydd. Dyma ni'n cwblhau un ar ddeg o sesiynau ymgysylltu gyda

gwahanol grwpiau o bobl mewn ystod o wahanol ardaloedd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, gan gynnwys lleoliadau trefol a gwledig. Cynhaliwyd sesiwn benodol gyda phobl ifanc fel rhan o'r gwaith hwn gyda Senedd yr Ifanc. Roeddem yn awyddus i ymweld â phobl ar eu telerau nhw ac yn eu lleoliadau nhw i'w hannog i ddweud eu barn am wasanaethau'r Cyngor.

Datblygwyd cardiau fflach gyda'n blaenoriaethau drafft arnyn nhw mewn geiriau a lluniau. Defnyddiwyd y rhain i ddechrau trafodaethau mewn grwpiau – mae bob tro yn helpu i gael rhywbeth diriaethol y gall pobl afael ynddo. Roeddem yn gallu cael mynediad i wasanaethau cyfieithu mewn sesiwn galw heibio i ffoaduriaid trwy weithiwr achos yn mynychu'r grŵp, a oedd yn ddefnyddiol iawn wrth drafod rhai pynciau mewn mwy o ddyfnder, ond nid oedd pawb angen defnyddio'r gwasanaeth.

5. Canfyddiadau

5.1. Crynodeb

Gwnaeth 285 o unigolion a 18 o grwpiau fynd at yr arolwg naill ai ar-lein neu drwy gwblhau copi caled, ac atebodd 214 o ymatebwyr o leiaf un o gwestiynau'r arolwg. Yn ogystal â hyn, cafwyd tri e-bost.

Nododd wyth grŵp a ymatebodd i'n harolwg pa gymunedau yr oedden nhw'n eu cynrychioli. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Plant a phobl ifanc
- Grwpiau cymorth i deuluoedd ac i bobl hŷn
- Cymunedau lleol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam
- Pobl o wahanol genedligrwydd
- Gwasanaethau statudol yn ymwneud ag iechyd a lles

Fel rhan o'n harolwg gofynnwyd i grwpiau faint o bobl maen nhw'n eu cynrychioli. Dywedodd y rheiny a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod yn cynrychioli grwpiau o 1 i 3000 o bobl.

Gwnaethom ni gyfarfod â grwpiau cymunedol:

- Bom Dia (Grŵp cymunedol Portiwgeaidd)
- Clwb Bwyd Caia
- Canolfan Glyd Glyn Ceiriog
- Bore Coffi Gresffordd
- Gwasanaeth galw heibio'r Groes Goch Brydeinig yn Wrecsam ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid
- Grŵp galw heibio ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin

Aethom ni i ddau ddigwyddiad cymunedol mawr

- Digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn Tŷ Pawb

- Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yng nghanol y ddinas

Gwnaethom ni hefyd gyfarfod â chynrychiolwyr y gymuned:

- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned Wrecsam
- Cynrychiolwyr Undebau Llafur
- Senedd yr Ifanc Wrecsam
- Cyfarfod Canolfan Amlddiwylliannol Gogledd Cymru

Drwy ymgysylltu â'r gymuned roeddem yn gallu hyrwyddo ein hymgynghoriad a chael adborth gan amrywiaeth eang o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol ar hyd a lled Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a deall effaith bosib' Cynllun y Cyngor ar wahanol grwpiau yn ein cymunedau.

Ein canfyddiadau cyffredinol

Ar y cyfan, mae yna gefnogaeth gref ar gyfer y chwe blaenoriaeth a gynigiwyd yng Nghynllun (drafft) y Cyngor. Mae'r adborth rydym ni wedi'i dderbyn drwy ymgysylltu â'n cymunedau yn amlygu nifer o themâu trawsbynciol, sydd wedi helpu i lunio a gorffen Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028.

Rydym ni'n hyderus bod hyn wedi helpu i sicrhau bod ein blaenoriaethau terfynol a'n datganiadau o ganlyniadau, sy'n cynnwys ein hamcanion cydraddoldeb strategol (sydd wedi'u nodi gyda seren yn yr adroddiad hwn), yn mynegi dyheadau cymunedau'r fwrdeistref yn llawn.

1) Themâu trawsbynciol

Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer canolbwyntio ar roi'r un cyfleoedd i bawb. Y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg, sydd â chysylltiad annatod â chydraddoldeb a thegwch oedd:

- **Risgiau allgáu digidol** – mae hyn yn lleihau mynediad a chyfleodd i gymryd rhan, ac yn gallu effeithiau ar faterion eraill y mae pobl yn eu hwynebu.
- **Yr heriau sy'n wynebu unigolion sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol** – yn cael effaith negyddol ar allu unigolion i fynd at wasanaethau dewisol, er enghraifft hamdden, cludiant ysgol ac addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl 16 oed; a heriau tlodi digidol.
- **Defnyddio cludiant cyhoeddus / dewisiadau teithio cynaliadwy –** i alluogi pobl gael mynediad teg at addysg, gwaith, gwasanaethau a chymunedau eraill.
- **Anghydraddoldebau rhwng cymunedau gwledig a threfol** – yr angen i sicrhau bod cyfle cyfartal i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig o ran darparu gwasanaethau a defnyddio gwasanaethau a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu wrth gynllunio a modelu gwasanaethau.

- **Gwella'r gwaith o gynllunio a modelu gwasanaethau** – yr angen i sicrhau ein bod ni'n cynnwys y bobl gywir wrth ein helpu ni i gynllunio ein gwasanaethau, yn cynnwys mewnbwn gan bobl sydd â phrofiad personol o faterion perthnasol, grwpiau cynrychioliadol ac ati, a sicrhau nad yw pobl yn wynebu rhwystrau wrth gael gafael ar y gwasanaethau hyn.

2) Themâu trawsbynciol eraill

- **Cyfranogi** – Sicrhau bod cyfleoedd i bobl gymryd rhan a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael mynegi barn a bod deunydd cyfathrebu yn hygyrch.
- **Y Gymraeg** – yn benodol, llai o bwyslais ar ddarpariaeth ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) – rhoi cyfle i bobl ddewis a fyddai'n well ganddyn nhw beidio â chael deunydd cyfathrebu/gohebu dwyieithog ac yn lle hynny eu bod nhw'n dewis yr iaith y maen nhw eisiau cael eu deunydd cyfathrebu/gohebu, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar adnoddau ariannol ac amgylcheddol.
- **Canolbwyntio ar gymunedau** – gwella ffyrdd o gysylltu mewn cymunedau.
- **Arweinyddiaeth** – yr angen am arweinyddiaeth gref ac unedig, gan sicrhau ein bod ni'n gynhwysol o ran ein penderfyniadau, a darparu adborth ar ein cynnydd.
- **Cyflawni strategaeth ddatgarboneiddio drawsbynciol** – gweithio gyda chymunedau, budd-ddeiliaid, partneriaid a busnesau i sicrhau bod datgarboneiddio yn flaenoriaeth drawsbynciol ym mhopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud yn allanol ac yn fewnol; gan gynnwys sicrhau bod datblygu economaidd yn gydnaws ag amgylchedd cynaliadwy a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd.

3) Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad

Yn ogystal â helpu i lunio Cynllun y Cyngor 2023-2028, bydd adborth o'r ymgynghoriad hwn yn llywio datblygiad ein fframwaith rheoli perfformiad, a fydd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor, gan sicrhau ein bod ni'n gallu nodi i ba raddau rydym ni'n cyflawni'r canlyniadau yn ein cynllun.

5.2. Sut ydym ni wedi llunio ein Cynllun y Cyngor terfynol

Cafodd yr adborth yn sgil ein hymgynghoriad cyhoeddus ei fwydo i mewn i ymgynghoriad arall gydag Aelodau Etholedig.

Gan ystyried yr holl waith ymgynghori, mae'r adborth cyffredinol wedi amlygu y dylai blaenoriaeth 'Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn' fod yn thema drawsbynciol yng Nghynllun y Cyngor. Mae hynny oherwydd bod cynnydd a datblygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud drwy raglen Dulliau Gweithio Modern y Cyngor wedi'u sefydlu o fewn ein gweithrediadau a'n 'dulliau gweithio' sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau mewn ffordd fodern a gwydn.

Felly mae ein blaenoriaeth o ran Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn wedi cael ffocws newydd i sicrhau bod gennym ni weithlu medrus, amrywiol a chynaliadwy, wedi'i gefnogi gan arferion rheoli pobl cadarn a dull gweithredol i gefnogi lles gweithwyr er mwyn darparu ein gwasanaethau.

O ganlyniad, mae'r geiriad wedi'i newid yn y cynllun terfynol: **'Cefnogi Gweithlu Tra Medrus ac Ymgysylltiol, sy'n Canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau'.**

Mae'r ymgynghori hefyd wedi amlygu bod rhai o'r datganiadau o ganlyniadau dan y flaenoriaeth hon yn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau eraill y Cyngor.

Felly mae'r datganiadau canlynol o ganlyniadau dan flaenoriaeth ddrafft 'Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn' wedi'u cynnwys ym mlaenoriaeth 'Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel' yn y cynllun terfynol.

- Mae ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n hawdd, trwy systemau digidol sydd wedi'u hadeiladu i amgylch eu hanghenion. Mae ein gwasanaethau yn gynhwysol ac rydym ni'n sicrhau ein bod yn cefnogi'r cwsmeriaid hynny a hoffai ddefnyddio ein gwasanaethau digidol, yn ogystal â pharhau i gynnig ffyrdd mwy traddodiadol o gysylltu â ni, ar gyfer y rhai sydd ei angen.
- Mae Wrecsam yn lle y mae pawb yn gwybod y gallant gymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Pobl yn teimlo'r ymgysylltiad a bod y Cyngor yn ymgynghori â nhw ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a, ble bo'n bosib', ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau; a gwneud i bethau ddigwydd gyda'n gilydd.

Amlygodd yr ymgynghoriad gydag Aelodau Etholedig fod ar ein cynllun angen cynnwys ffocws ar y gwasanaethau stryd a ddarperir gan Adran yr Amgylchedd a Thechnegol. Dylai hyn gynnwys ffocws ar sicrhau bod ein strydoedd a'r meysydd chwarae sydd yn ein meddiant yn cael eu cadw'n lân ac yn ddeniadol, bod yr holl ddeunyddiau ailgylchu a gwastraff y cartref yn cael ei gasglu pan gaiff ei adael allan yn briodol a bod yr holl asedau priffyrdd yn ddiogel ac yn addas i'r diben.

Y blaenoriaethau terfynol sydd wedi'u cytuno arnyn nhw ar gyfer Cynllun y Cyngor yw:

- **Darparu Gwasanaethau Stryd effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd**
- **Datblygu ein Heconomi**
- **Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel**
- **Gwella Addysg a Dysgu**
- **Hybu Iechyd a Lles (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da)**
- **Cynnal gweithlu tra medrus a brwdfrydig sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau**

O fewn y blaenoriaethau hyn mae'r datganiadau o ganlyniadau wedi'u mireinio, canlyniadau ychwanegol wedi'u cynnwys ac mae rhai canlyniadau wedi'u symud i flaenoriaethau gwahanol. Mae'r dull hwn yn ystyried adborth y rheiny a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad cyhoeddus a'r ymgynghoriad dilynol gydag Aelodau Etholedig.

Gan gymryd pob blaenoriaeth yn eu tro, mae'r graffiau, y tablau a'r dadansoddiad ysgrifenedig isod yn dangos ac yn crynhoi'r hyn y gwnaethom ni ei ddarganfod yn dilyn ein hymgynghoriad cyhoeddus pan wnaethom ni ofyn i bobl:

1. A oedden nhw’n credu bod y blaenoriaethau drafft y gwnaethom ni eu nodi yn addas ar gyfer Cynllun y Cyngor 2023-2028.
2. A oedden nhw’n credu y byddai’r canlyniadau yr oeddem ni wedi’u nodi yn ein helpu ni i gyflawni ein blaenoriaethau drafft.

Mae canlyniadau ein hymgynghoriad cyhoeddus hefyd yn cynnwys dadansoddiad o’r adborth a gafwyd pan wnaethom ni ofyn i bobl am eu barn nhw:

1. A oedd unrhyw beth pwysig yr oeddem ni wedi anghofio amdano.
2. A oedd ganddyn nhw adborth arall i ni am y flaenoriaeth yn gyffredinol.

Gellir gweld data meintiol (rhifol) a gafwyd o ymatebion i'r arolwg yn y graffiau a’r tablau isod. Mae data ansoddol (adborth ysgrifenedig neu ar lafar o farn a safbwyntiau pobl a gafwyd trwy ein harolwg, yn ysgrifenedig neu o sgyrsiau â phobl mewn grwpiau cymunedol) wedi'i gynnwys yn ein dadansoddiad ysgrifenedig o'r adborth a gafwyd, sydd hefyd wedi'i gynnwys isod.

Mae ein dadansoddiad yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae’r ymgynghoriad pellach gydag Aelodau Etholedig yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac ystyried yr holl adborth sydd wedi dod i law, wedi siapio manylion ein blaenoriaethau terfynol a’n datganiadau o ganlyniadau.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd

Fe ddywedoch chi wrthym ni:

> “Mae angen arweinyddiaeth gref a strategaethau clir arnom ni ar gyfer Sero Net a Bioamrywiaeth: dull sy’n seiliedig ar dystiolaeth a chyfathrebu rheolaidd o’r cynnydd.”

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth o Ddatblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd ac roedd pobl yn cytuno/cytuno’n gryf â’r datganiadau o ganlyniadau a gynigiwyd.

Roedd yr angen am arweinyddiaeth gref, strategaeth effeithiol a chynlluniau gweithredu clir yn themâu allweddol yn yr adborth ynghylch y flaenoriaeth ddrafft hon.

Mae’r adborth ar ein cynllun drafft wedi nodi’r angen i sicrhau bod ein Strategaeth Ddatgarboneiddio yn cynnwys gweithio gyda chymunedau, budd-ddeiliaid, partneriaid a busnesau, fel bod datgarboneiddio yn flaenoriaeth ar draws popeth y mae’r Cyngor yn ei wneud, yn fewnol ac yn allanol.

Rydym ni wedi ymrwymo yng Nghynllun y Cyngor i sicrhau bod y camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn cael eu hintegreiddio yng ngwasanaethau'r Cyngor drwy ein Cynllun Datgarboneiddio.

Wrth edrych ar adborth gan wahanol grwpiau yn ein cymunedau, rydym ni wedi gallu nodi’r canlynol:

- Mae llawer o’r plant a’r bobl ifanc y bu i ni ymgysylltu â nhw yn credu bod datblygu a datgarboneiddio'r amgylchedd yn bwysig iawn. Mae ganddyn nhw ddiddordeb

arbennig mewn gweithio tuag at fod yn ddiwastraff, ac maen nhw eisiau lleihau'r defnydd o blastigau a chynyddu ailgylchu pecynnau plastig.

- Mae llawer o'r bobl anabl yn credu bod cludiant cyhoeddus gwell a chost-effeithiol yn bwysig yn ogystal â chynlluniau teithio gwyrdd cynaliadwy a llwybrau teithio llesol. Gofynnodd rai pobl anabl sy'n byw y tu allan i ganol y ddinas sut y byddai'r flaenoriaeth hon yn berthnasol i ardaloedd gwledig.
- Roedd llawer o bobl o bob hil a grŵp ethnig yn poeni am wastraff yn ein hamgylchedd ac eisiau gwella cyfraddau ailgylchu. Roedd llawer o bobl yn cydnabod harddwch ein hamgylchedd naturiol yng Ngogledd Cymru ac eisiau canolbwyntio ar ddatblygiad a bioamrywiaeth ein hamgylchedd.
- Roedd llawer o'r bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn deall pwysigrwydd datgarboneiddio, ond nid ydyn nhw'n ystyried hyn yn brif flaenoriaeth iddyn nhw pan maen nhw'n cael trafferth fforddio prynu bwyd a thalu eu biliau. Mae'r grŵp hwn yn ystyried ailgylchu, mynd i'r afael â gwastraff bwyd a chyfnewid dillad yn weithgareddau cadarnhaol sy'n cefnogi datgarboneiddio.

Pa wahaniaeth mae eich adborth chi wedi'i wneud?

O ganlyniad i adborth ein cymunedau, mae'r datganiad o ganlyniadau ar gyfer y flaenoriaeth ddrafft yn ymwneud â defnyddio a chynnal tir ym mherchnogaeth y Cyngor er budd bioamrywiaeth a datgarboneiddio wedi'i ehangu, i gynnwys cyfeiriad at dir ehangach y fwrdeistref sirol.

Geiriad terfynol y datganiad hwn o ganlyniadau yw:

> Defnydd Tir: Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod tir o fewn y Fwrdeistref Sirol yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal mewn modd cynaliadwy er budd bioamrywiaeth a'r rhaglen datgarboneiddio, trwy ei reolaeth o asedau ei hun a thrwy ei swyddogaethau rheoleiddio.

Bydd yr holl adborth sydd wedi dod i law yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiad fframwaith perfformiad, a fydd yn cynnwys mesurau canlyniadau a chamau gweithredu a mesurau ategol i hysbysu meysydd gwaith ac i fynd i'r afael â phryderon.

Amlygodd yr ymgynghoriad gydag Aelodau Etholedig y dylai'r flaenoriaeth mewn perthynas â 'Datgarboneiddio'r Amgylchedd' gynnwys darparu Gwasanaethau Stryd ein Hadran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod ein strydoedd a'n meysydd chwarae yn lân ac yn ddeniadol, bod yr holl ailgylchu a gwastraff y cartref yn cael ei gasglu pan fydd yn cael ei adael allan yn gywir a bod yr holl asedau priffyrdd yn ddiogel ac yn addas i'r diben.

O ganlyniad, yn y cynllun terfynol mae ein blaenoriaeth o ran yr amgylchedd wedi'i newid i:

> **Darparu Gwasanaethau Stryd effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd.**

Mae adborth ar bwysigrwydd dewisiadau cludiant cynaliadwy (yn arbennig cludiant cyhoeddus a chludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch blaenoriaeth ddrafft: Datblygu'r Economi, wedi arwain at ehangu

ein datganiad o ganlyniadau mewn perthynas ag isadeiledd cludiant Wrecsam a'i gynnwys dan y flaenoriaeth hon. Y datganiad o ganlyniad sydd wedi'i gynnwys ym mlaenoriaeth Darparu Gwasanaethau Stryd Effeithiol a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd yw:

> Mae isadeiledd cludiant Wrecsam yn diwallu anghenion ei drigolion a'r economi, gyda gwell gwasanaethau cludiant cyhoeddus a dewisiadau cynaliadwy ar gyfer teithio a pharcio yn ac o amgylch canol y ddinas, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, ac ar draws cymunedau gwledig, ac i gefnogi Wrecsam fel cyrchfan ymwelwyr arwyddocaol.

Canfyddiadau Manwl ar gyfer: Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd



Ydych chi'n cytuno y dylai datblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028?	**Nifer yr ymatebwyr**	**Canran ymatebwyr yr arolwg**
Anghytuno'n gryf	8	3.8
Anghytuno	17	8.1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	22	10.5
Cytuno	82	39.1
Cytuno'n gryf	79	37.6
Ddim yn gwybod	2	1.0
Cyfanswm	**210**	**100.0**

Roedd 76.7% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai datblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028. Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth hon ymysg y bobl a oedd wedi ymateb i'r arolwg, gan gynrychioli'r amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig ac ardaloedd daearyddol, trefol a gwledig, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd: Canlyniad – Wrecsam yn dod yn gryfach wrth gynllunio ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.

Roedd 78.2% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd. Y themâu a oedd yn codi'n gyson yn yr adborth oedd:

- **Datblygu ymagwedd ymarferol tuag at ymgysylltu â'r gymuned** – Dangos arweiniad, a meithrin cysylltiadau trwy weithio gyda chymunedau, budd-ddeiliaid, partneriaid a busnesau.
- **Defnyddio'r broses o lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth bob amser –** Sicrhau bod tystiolaeth glir yn llywio pob cam gweithredu, gosod targedau ac adrodd ar gynnydd ar gerrig milltir.
- **Datblygu diwylliant o addysg a dysgu –** Cyflwyno strategaeth i feithrin gallu, gwybodaeth a hyder, gan weithio gyda chymunedau, budd-ddeiliaid, partneriaid a busnesau.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd: Canlyniad – Mae'r Cyngor yn gweithredu drwy gynllunio a gwneud penderfyniadau, i symud tuag at Allyriadau Carbon Sero Net erbyn 2030.

Roedd 71.8% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd. Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad hwn oedd:

- **Dull effeithiol o gynllunio i gyflawni ein targedau sero net –** Sicrhau bod y Cyngor yn dangos arweiniad a bod ganddyn nhw strategaeth glir, cynllun gweithredu clir, cerrig milltir effeithiol a bod cyfathrebu rheolaidd o ran y cynnydd.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd: Canlyniad – Mae'r Cyngor yn arweinydd cymunedol cryf ar gyfer materion amgylcheddol, ac yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i leihau carbon.

Roedd 60% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd. Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad hwn oedd:

- **Datblygu ymagwedd ymarferol tuag at ymgysylltu â'r gymuned** – Dangos arweiniad, a meithrin cysylltiadau trwy gydweithio gyda chymunedau, budd-ddeiliaid, partneriaid a busnesau.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd: Canlyniad – Mae gan y Cyngor fflyd cludiant modern ac amgylcheddol gyfrifol. Mae cynlluniau teithio gwyrdd gwell a chynaliadwy a llwybrau teithio llesol yn helpu i leihau allyriadau.

Roedd 58.5% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd. Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad hwn oedd:

- **Dull hirdymor cynaliadwy at gludiant cyhoeddus –** Sicrhau bod y Cyngor yn dangos arweiniad a bod ganddyn nhw strategaeth cludiant cyhoeddus clir, cynllun gweithredu arloesol, cerrig milltir effeithiol a bod cyfathrebu rheolaidd o ran cynnydd.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd: Canlyniad – Mae mwy o adeiladau'r Cyngor yn garbon isel neu'n ddi-garbon.

Roedd 58.9% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn helpu i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd. Nid oedd adborth ysgrifenedig nac ar lafar penodol gan bobl am y canlyniad hwn.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd: Canlyniad – Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gaffael mwy cyfrifol a chynaliadwy wrth brynu nwyddau; prynu'n lleol neu'n rhanbarthol pan fo'n bosib'.

Roedd 68% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd.

Wrth roi adborth, nododd un unigolyn bod yn rhaid i ni fod yn glir ynghylch yr hyn rydym ni'n ei olygu wrth gynaliadwyedd wrth gaffael; h.y. a ydym ni'n canolbwyntio ar y cynnyrch cynaliadwy yn gyntaf ac yna'n cael hierarchaeth yn seiliedig ar gynnyrch lleol a rhanbarthol, neu a ydym ni'n canolbwyntio'n gyntaf ar gynnyrch lleol a rhanbarthol ac yna ar eu cynaliadwyedd.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd: Canlyniad – Bydd tir sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael ei ddefnyddio er budd bioamrywiaeth a datgarboneiddio.

Roedd 68.9% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd. Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad hwn oedd:

- **Mae angen strategaeth bioamrywiaeth a natur –** Sicrhau bod y Cyngor yn dangos arweiniad a bod ganddyn nhw strategaeth glir, cynllun gweithredu clir, cerrig milltir effeithiol a bod cyfathrebu rheolaidd o ran cynnydd.

Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd: Canlyniad – Cefnogir pob cartref yn Wrecsam i weithio tuag at fod yn ddiwastraff.

Roedd 66.2% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd.

Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad hwn oedd:

- **Dull ar y cyd tuag at wastraff –** Sicrhau bod y Cyngor yn dangos arweiniad gyda strategaeth wastraff glir, cynllun gweithredu arloesol, cerrig milltir effeithiol a bod cyfathrebu rheolaidd o ran cynnydd.

Datblygu'r Economi

Fe ddywedoch chi wrthym ni:

> "Mae angen i ni adfywio canol y ddinas a'r ardaloedd cyfagos, drwy gael rhagor o gyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant ac annog mewnfuddsoddi"

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth ddrafft hon ac roedd pobl yn cytuno/cytuno'n gryf â'r datganiadau o ganlyniadau a gynigiwyd. Y themâu allweddol yn yr adborth oedd:

- Annog mewnfuddsoddi
- Gwella cludiant cyhoeddus, yn ogystal ag isadeiledd rheilffyrdd a ffyrdd
- Adfywio ardaloedd gwledig a darpariaeth ar eu cyfer
- Ystyried anghenion pobl y mae angen cludiant cyhoeddus arnyn nhw i fynd i'r gwaith neu i gael addysg
- Adfywio canol y ddinas a'r ardaloedd cyfagos
- Rhagor o gyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant
- Gwella'r sefyllfa o ran parcio ceir yng nghanol y ddinas
- Cefnogi datblygu cyfleoedd gwaith a mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau

Y bylchau posib' a nodwyd yn yr adborth oedd:

- Yr angen i ganolbwyntio ar anghenion ac adfywio ardaloedd gwledig a hyrwyddo Wrecsam wledig yn lleoliad ar gyfer ymwelwyr
- Cydnabod diffyg cludiant cyhoeddus yn rhwystr i gael addysg a gwaith
- Mynd i'r afael â'r sefyllfa parcio ceir yn y ddinas fel rhwystr i fanwerthu a gwaith
- Cydnabod yr angen i gefnogi Dôl yr Eryrod yn rhan o Strategaeth Creu Lleoedd Wrecsam yn gyffredinol
- Hyrwyddo Wrecsam yn lle Cymreig
- Cydymffurfio â datgarboneiddio i sicrhau bod datblygu economaidd yn gydnaws ag amgylchedd cynaliadwy a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd.

Wrth edrych ar adborth gan wahanol grwpiau yn ein cymunedau, rydym ni wedi gallu nodi'r canlynol:

- Roedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc yn credu y byddai'r canlyniadau arfaethedig sydd wedi'u rhestru dan y flaenoriaeth ddrafft hon yn cael effaith gadarnhaol arnyn nhw, yn enwedig os yw pobl ifanc yn cael cyflog byw am eu gwaith ar ôl iddyn nhw ymuno â'r farchnad swyddi.
- Roedd y rhan fwyaf o'r bobl hŷn eisiau gweld mwy o bwyslais ar ddiwylliant a threftadaeth yng nghanol y ddinas ar hyd a lles y Fwrdeistref Sirol a mwy o hyrwyddo a chefnogaeth i dwristiaeth yn ardaloedd gwledig ein Bwrdeistref Sirol.
- Dywedodd y llawer o'r bobl ag anableddau y byddai cysylltiadau cludiant cyhoeddus gwell a chost-effeithiol yn eu helpu nhw i allu cyrraedd ardaloedd manwerthu yng nghanol y ddinas, atyniadau gwledig a dinasoedd mawr eraill fel Manceinion a Lerpwl.

- Mae ar lawer o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn ein cymuned ni eisiau gweld mwy o bethau i'w gwneud gyda'r nos, gan gynnwys mwy o ddarpariaeth i bobl ifanc. Roedd y grwpiau yma hefyd yn hynod o werthfawrogol o'r cyfraniad y mae masnachwyr bach yn ei wneud at ein heconomi.
- Un thema amlwg ymhlith gofalwyr oedd yr angen am well cludiant cyhoeddus, isadeiledd rheilffyrdd a ffyrdd. Roedd llawer o ofalwyr yn cefnogi datblygu cyfleoedd gwaith a mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau. Mae llawer o'r rheiny a ddywedodd eu bod yn ofalwyr hefyd wedi mynegi bod arnyn nhw eisiau mwy o gyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant
- Roedd llawer o'r bobl a oedd yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn credu eu bod nhw dan anfantais oherwydd adleoli siopau i barciau siopa lloeren o ganlyniad i'r her o allu cyrraedd y parciau siopa hyn ar gludiant cyhoeddus. Roedden nhw'n credu bod angen gwell cynllunio yng nghanol y ddinas i sicrhau profiad siopa cydgysylltiedig a hygyrch sydd â llai o siopau gwag, a chadw cyfleusterau cymunedol.
- Roedd llawer o'r trigolion gwledig yn credu y gallai'r flaenoriaeth ddrafft hon gael effaith negyddol arnyn nhw oni bai ei bod yn cynnwys cefnogaeth i'r economi wledig.

Pa wahaniaeth mae eich adborth chi wedi'i wneud?

Mae'r adborth ar gyfer y canlyniadau arfaethedig dan flaenoriaeth ddrafft: Datblygu ein Heconomi, wedi arwain at nifer o newidiadau i'r datganiadau o ganlyniadau yn y cynllun terfynol.

Mae adborth mewn perthynas â'r angen am nodau mwy penodol, a phwysigrwydd yr economi trawsffiniol ac arwyddocâd rhanbarthol, wedi arwain at newid i'r canlyniad: Bydd y Cyngor yn cydweithio i wella economi gogledd Cymru.

Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

> Mae Wrecsam yn ymgysylltu'n effeithiol yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan weithio mewn cydweithrediad i adeiladu economi mwy bywiog, cadarn, cynaliadwy a chysylltiedig ar gyfer gogledd Cymru, trwy ddarparu Bargen Dwf Gogledd Cymru a datblygu statws o fewn Pwerdy'r Gogledd.

Mae adborth ynglŷn â datblygiadau preifat wedi arwain at newid canlyniad: Mae Wrecsam yn cael ei hyrwyddo a'i chydnabod yn ganolbwynt bywiog o ddiwydiant a masnach, sy'n gallu tyfu a datblygu.

Mae'r canlyniad hwn rŵan yn cynnwys cyfeiriad at ddylanwadu ar yr amodau sydd eu hangen i alluogi datblygiad preifat gan nad yw rôl y Cyngor o hyd yn un uniongyrchol.

Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

> Mae Wrecsam yn cael ei hysbysebu a'i gydnabod yn rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol fel canolbwynt bywiog o ddiwydiant a masnach, gyda'r gallu i fodloni'r galw am fewnfuddsoddiad a chreu amodau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad masnachol ac er mwyn i fusnesau presennol dyfu.

Mae adborth ynglŷn ag isadeiledd cludiant wedi arwain at roi mwy o ffocws ar bwysigrwydd cludiant cynaliadwy (yn enwedig cludiant cyhoeddus a chludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig) i gefnogi'r economi. O ganlyniad, mae ein canlyniad ynglŷn ag isadeiledd cludiant wedi'i ail-eirio.

Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

> Mae isadeiledd cludiant Wrecsam yn diwallu anghenion ei drigolion a'r economi, gyda gwell gwasanaethau cludiant cyhoeddus a dewisiadau cynaliadwy ar gyfer teithio a pharcio yn ac o amgylch canol y ddinas, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, ac ar draws cymunedau gwledig, ac i gefnogi Wrecsam fel cyrchfan ymwelwyr arwyddocaol.

O ganlyniad i gysylltiad agos isadeiledd teithio cynaliadwy â datgarboneiddio, mae'r canlyniad hwn bellach wedi'i gynnwys ym mlaenoriaeth 'Darparu Gwasanaethau Stryd Effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd'.

Mae adborth ar ganol y ddinas wedi arwain at newid ein datganiad o ganlyniad ynghylch canol y ddinas. Y datganiad terfynol yw:

> Mae gan Wrecsam ganol dinas dwys, amrywiol ac entrepreneuraidd gyda chymysgedd briodol o ddefnydd manwerthu, preswyl ac adloniant, trwy weithredu Cynllun Creu Lleoedd a fydd yn cynyddu hyder ar gyfer buddsoddwyr ac entrepreneuriaid a chefnogi gostyngiad mewn eiddo gwag.

Arweiniodd adborth ynghylch cydnabod ein cymunedau gwledig, a'u rhan fel cyrchfannau i ymwelwyr a'u cyfraniad at ein hunaniaeth Gymreig, at ddiwygiad i'n datganiad o ganlyniadau. Mae Wrecsam yn lle poblogaidd i ymweld ag ef yng ngogledd Cymru a gogledd orllewin y DU, sydd ag amrywiaeth o atyniadau cydnabyddedig.

Mae'r datganiad o ganlyniad bellach yn cynnwys cyfeiriad at gymunedau gwledig a'n hunaniaeth Gymreig. Geiriad y datganiad yn y cynllun terfynol yw:

> Mae gan Fwrdeistref Sirol Wrecsam broffil uchel fel cyrchfan ymwelwyr sylweddol yng Ngogledd Cymru a Rhanbarth Mersi a Dyfrdwy ehangach. Cawn ein hadnabod am ein cynnig diwylliannol sy'n cynnwys cymunedau trefol a gwledig (gan gynnwys Safle Treftadaeth y Byd a Dyfrbont Pontcysyllte), ein treftadaeth pêl-droed, ein hunaniaeth Gymreig a'n gallu i gynnal digwyddiadau mawr yn y Cae Ras, wedi'i gefnogi gan ddarpariaeth Uwchgynllun Porth Wrecsam.

Arweiniodd adborth ynghylch technolegau newydd (gan gynnwys technoleg werdd, ymhlith eraill) a mynd i weithleoedd i gefnogi cludiant cyhoeddus, at ddiwygio'r canlyniad sy'n ymwneud â chyflogaeth, i gynnwys cyfeiriad at dechnolegau newydd a rhwystrau rhag cael swyddi. Y datganiad terfynol yw:

> Mae cyfraddau cyflogaeth uchel a chyflenwad da o swyddi hygyrch sy'n talu'n dda. Canfyddir ac eir i'r afael â bylchau mewn sgiliau ynghyd â chyfleoedd gan arwain at dechnolegau a marchnadoedd newydd. Mae pobl sy'n profi rhwystrau yn cael eu

cefnogi i gael swyddi a mynediad at safleoedd cyflogaeth, ac mae llwybrau gwell i gyflogaeth ar gyfer grwpiau lleiafrifol.

Bydd yr holl adborth sydd wedi dod i law yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiad fframwaith perfformiad, a fydd yn cynnwys mesurau canlyniadau a chamau gweithredu a mesurau ategol i hysbysu meysydd gwaith ac i fynd i'r afael â phryderon.

Canfyddiadau manwl ar gyfer Blaenoriaeth Datblygu'r Economi



Ydych chi'n cytuno y dylai Datblygu'r Economi fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028?	Nifer yr ymatebwyr	Canran ymatebwyr yr arolwg
Anghytuno'n gryf	6	3.2
Anghytuno	0	0.0
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7	3.7
Cytuno	55	29.4
Cytuno'n gryf	118	63.1
Ddim yn gwybod	1	0.5
Cyfanswm	**187**	**100.0**

Roedd 92.5% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai Datblygu'r Economi fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028. Roedd cefnogaeth eang i'r flaenoriaeth hon ymysg y bobl a oedd wedi ymateb i'r arolwg, gan gynrychioli'r amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig ac ardaloedd daearyddol, trefol a gwledig, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Datblygu'r Economi: Canlyniad Bydd y Cyngor yn cydweithio i wella economi gogledd Cymru.

Roedd 82.6% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu'r economi.

Cafwyd adborth hefyd am eiriad y canlyniad hwn, gan dynnu sylw at yr angen i fod yn benodol ynghylch pwy a sut fyddai'r Cyngor yn 'cydweithio' â nhw, er mwyn i eiriad y flaenoriaeth fod yn ystyrlon.

Datblygu'r Economi: Canlyniad – Mae Wrecsam yn cael ei hyrwyddo a'i chydnabod yn ganolbwynt bywiog o ddiwydiant a masnach, sy'n gallu tyfu a datblygu.

Roedd 77.7% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu'r economi. Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y ddau ganlyniad uchod oedd:

- **Annog mewnfuddsoddi –** Sefydlu cysylltiad â'r Pwerdy Gogleddol i annog buddsoddiad yn yr ardal fel partner. Sicrhau bod busnesau'n cael eu hannog i fuddsoddi yn yr ardal yn cynnwys lleihau ardrethi busnes. Cefnogaeth i fusnesau lleol i annog busnesau canolig a llai i fuddsoddi ochr yn ochr â'r trydydd sector. Ystyried annog datblygiad yn Nôl yr Eryrod i greu canolbwynt adloniant.

Datblygu'r Economi: Canlyniad – Mae cludiant Wrecsam yn diwallu anghenion trigolion, ymwelwyr a'r economi, drwy ffyrdd cynaliadwy a gwell o deithio yn y ddinas ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam ac o'u cwmpas.

Roedd 67% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu'r economi. Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Gwella cludiant cyhoeddus ac isadeiledd teithio –** Gwella cludiant cyhoeddus, isadeiledd rheilffyrdd a ffyrdd ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys o ardaloedd gwledig ac i mewn iddyn nhw, ac i ogledd-orllewin Lloegr a Swydd Amwythig er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch i gael gwaith yn yr ardal ac o'i chwmpas. Bydd gwella cludiant yn cefnogi twf swyddi a recriwtio.

- **Adfywio a darpariaeth ar gyfer ardaloedd gwledig –** Mwy o bwyslais ar adfywio ardaloedd gwledig, buddsoddi yn yr ardaloedd gwledig a'u hyrwyddo i gefnogi Wrecsam fel lleoliad i dwristiaid. Cludiant mewn ardaloedd gwledig.

- **Mynd i'r afael ag anghenion cludiant cyhoeddus er mwyn gallu cael gwaith –** Mynd i'r afael ag anghenion y grwpiau o bobl y mae angen cludiant cyhoeddus arnyn nhw, yn cynnwys pobl hŷn, pobl anabl, pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol/tlodi/gweithwyr ar gyflog isel, cludiant ysgol ar ôl 16 oed. Diffyg dewisiadau o ran teithio llesol i bobl sydd eisiau byw'n fwy cynaliadwy.

Dywedodd pobl eraill:

- Gwella ymgysylltu (gan gynnwys ag ardaloedd gwledig) i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Hyrwyddo Wrecsam yn fwy, yn cynnwys gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y ddinas.

Datblygu'r Economi: Canlyniad – Mae canol ein dinas yn ein galluogi ni i weithio, byw, siopa a mwynhau amrywiaeth o adloniant.

Roedd 64.8% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu'r economi. Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Adfywio canol y ddinas a'r ardaloedd cyfagos -** Sicrhau strategaeth glir i fuddsoddi yng nghanol y ddinas, gan ei gwneud yn ardal lân, ddiogel, ffyniannus a deniadol ac annog buddsoddiad. Cyflwyno'r ddarpariaeth fanwerthu a buddsoddi ynddi, gan wneud hyn yn fwy hygyrch a chydgysylltiedig, canoli cyfleusterau adloniant, a chreu canolbwynt adloniant. Buddsoddi ym marchnadoedd Wrecsam.

- **Rhagor o gyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant –** Datblygu canolbwynt adloniant canolog ac atyniadau i dwristiaid. Cysylltu Wrecsam â mwy na phêl-droed. Sicrhau bod gan fannau cyhoeddus ac adloniant yr amwynderau cywir yn cynnwys toiledau cyhoeddus.

Dywedodd pobl eraill:

- Gwella'r sefyllfa o ran parcio ceir yng nghanol y ddinas er mwyn gallu cystadlu ag ardaloedd siopa ar gyrion trefi.
- Annog datblygiad Dôl yr Eryrod fel canolfan siopa ac adloniant.
- Adfywio a diogelu adeiladau gwag yng nghanol y ddinas – gwneud mwy o ddefnydd o adeiladau presennol yn hytrach na chodi adeiladau newydd. Diogelu adeiladau hanesyddol.
- Datblygu hanes a threftadaeth Wrecsam.

Datblygu'r Economi: Canlyniad – Mae Wrecsam yn lle poblogaidd i ymweld ag ef yng ngogledd Cymru a gogledd orllewin y DU, sydd ag amrywiaeth o atyniadau cydnabyddedig.

Roedd 63.4% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu'r economi. Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Rhagor o gyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant -**Datblygu canolbwynt adloniant canolog a datblygu atyniadau i dwristiaid ledled y Sir. Cysylltu Wrecsam â mwy na phêl-droed. Sicrhau bod gan fannau cyhoeddus ac adloniant yr amwynderau cywir yn cynnwys toiledau cyhoeddus.

- **Mwy o waith hyrwyddo'r Gymraeg a Wrecsam fel lle Cymreig** – mae hyn yn cynnwys gwneud i Wrecsam deimlo'n fwy Cymreig a chynnig mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith, adnoddau i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant, cefnogaeth i ddigwyddiadau diwylliannol, gwella arwyddion Cymraeg a'r Gymraeg y tu blaen i siopau. Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg ar lwyfan y byd.

- **Adfywio a darpariaeth ar gyfer ardaloedd gwledig –** Mwy o bwyslais ar adfywio ardaloedd gwledig, buddsoddi yn yr ardaloedd gwledig a'u hyrwyddo i gefnogi Wrecsam fel lleoliad i dwristiaid. Mynd i'r afael ag anghenion cludiant mewn ardaloedd gwledig.

Dywedodd pobl eraill:

- Datblygu hanes a threftadaeth Wrecsam.
- Gwella'r sefyllfa o ran parcio ceir yng nghanol y ddinas. Mae'n rhaid i ni allu cystadlu ag ardaloedd siopa ar gyrion trefi.

Datblygu'r Economi: Canlyniad – *Mae digon o waith sy'n talu'n dda ar gael. Mae bylchau o ran sgiliau yn cael eu nodi ac eir i'r afael â nhw. Mae pobl sy'n wynebu rhwystrau a phobl mewn grwpiau lleiafrifol yn cael eu cefnogi i gael gwaith.

Roedd 59.3% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i ddatblygu'r economi. Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Cefnogi datblygu cyfleoedd gwaith a mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau –** Annog mwy o fuddsoddiad yn yr ardal, creu rhagor o swyddi a chyfleoedd gwaith. Rhoi rhagor o gymorth i bobl ddi-waith, yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn seiliedig ar waith. Defnyddio'r rhaglen werdd i ddatblygu cyfleoedd gwaith newydd. Cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau mewn meysydd y mae prinder neu i ddatblygu yn eu gyrfa.

- **Mynd i'r afael ag anghenion cludiant cyhoeddus er mwyn gallu cael gwaith** – Ystyried anghenion y grwpiau o bobl y mae angen cludiant cyhoeddus arnyn nhw – pobl anabl, pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol/tlodi/gweithwyr ar gyflog isel, cludiant ysgol ar ôl 16 oed.

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn

Fe ddywedoch chi wrthym ni:

> "Rydym ni eisiau ei gwneud yn hawdd i bobl gysylltu â'r Cyngor a sicrhau bod darpariaeth ar gyfer cysylltu a deunydd cyfathrebu nad yw'n ddigidol. Mae'n bwysig trin pawb yn deg a bod pawb yn cael lleisio eu barn."

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth ddrafft hon ac roedd pobl yn cytuno/cytuno'n gryf â'r datganiadau o ganlyniadau a gynigiwyd, ac eithrio canlyniad: Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ffynnu o fewn ein gweithlu a'n cymunedau ac yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi – roedd 44% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf; 24% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â'n dyletswyddau ni dan Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) sy'n rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol safonau'r Gymraeg ar gyrff cyhoeddus. Ei nod yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi'i rwymo gan y Safonau a'u hamcanion, ac felly nid oes unrhyw newid wedi'i wneud i'r canlyniad hwn.

Thema gyson yn yr adborth ar gyfer y flaenoriaeth ddrafft hon i Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn oedd:

- **Arweinyddiaeth effeithiol gan y Cyngor** - Roedd ar lawer o bobl eisiau i Aelodau lleol gytuno ar gyfeiriad y Fwrdeistref Sirol ac i Gynghorwyr fod â llai o ran wrth ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Roedd llawer hefyd yn credu bod angen arweiniad clir gan swyddogion y Cyngor i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws adrannau o ran darparu gwasanaethau a'r rhaglen dulliau gweithio modern.

Dywedodd pobl eraill:

- **Gwell effeithlonrwydd -** Dylai'r Cyngor sicrhau effeithlonrwydd ar draws meysydd gwasanaeth y Cyngor i gyd. Mae dyblygu ar draws adrannau yn gwastraffu arian ac mae angen dull mwy cydgysylltiedig. Mae angen systemau ar waith i fesur effaith newidiadau sy'n cael eu gweithredu yn y Cyngor.

- **Mae angen hyfforddiant i staff ar gyfathrebu a darparu gwasanaethau -** Dywedodd rai pobl fod angen hyfforddiant ar staff er mwyn eu bod nhw'n deall yn llwyr sut y dylid darparu gwasanaethau a'u bod nhw'n gallu rhyngweithio/helpu a chefnogi trigolion mewn modd gwybodus.

Y bylchau posib' a nodwyd yn yr adborth oedd:

- Ystyried cysylltu â darparwyr gwasanaethau partner i gyfathrebu a hyrwyddo mentrau a gweithgareddau ei gilydd i gynnig dull mwy cadarn a chynaliadwy
- Sicrhau gwasanaethau cynhwysol a chadw ffyrdd mwy traddodiadol o gysylltu â'r Cyngor
- Gwella cyfathrebu – dulliau nad ydyn nhw'n ddigidol ac ymrwymiad i gynnig gwybodaeth mewn ieithoedd lleiafrifol eraill
- Ystyried cyfeirio'n benodol at gaffael i gefnogi'r economi leol.

Wrth edrych ar adborth gan wahanol grwpiau yn ein cymunedau, rydym ni wedi gallu nodi'r canlynol:

- Roedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd yn cydnabod gwerth systemau digidol y Cyngor, ond yn credu y gallai'r systemau hyn fod yn fwy hygyrch; er enghraifft trwy fod yn symlach i'w deall, yn haws i'w defnyddio ac yn fwy cydgysylltiedig. Mae'r adborth gan blant a phobl ifanc yn cydnabod anghenion unigolion sy'n wynebu heriau o ran defnyddio'r rhyngrwyd, ac mae rhai wedi awgrymu y gellid cyflwyno mannau i gysylltu â'r rhyngrwyd yng nghanol y ddinas. Roedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc yn cytuno bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pawb yn gwybod y gallan nhw gymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Dywed pobl hŷn sy'n siarad ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg eu bod nhw'n ei chael yn anodd cyfathrebu â'r Cyngor ac y bydden nhw'n dymuno cael cefnogaeth staff sy'n siarad ieithoedd allweddol (e.e. Portiwgaleg, Pwyleg), a sicrhau

bod technoleg ar gael i'w galluogi nhw i gyfathrebu â'r Cyngor yn eu hiaith eu hunain.

- Hoffai llawer o bobl hŷn hefyd gael systemau digidol sy'n hawdd eu defnyddio, a ffyrdd eraill o gysylltu â'r Cyngor ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein. Roedd rhai pobl hŷn yn credu eu bod nhw weithiau'n colli allan ar ddigwyddiadau cymdeithasol sy'n cael eu hyrwyddo ar-lein yn unig, ac y bydden nhw'n dymuno i ddigwyddiadau gael eu hyrwyddo mewn cylchlythyrau cymunedol ac ati.
- Thema ymhlith pobl anabl oedd eu bod nhw weithiau'n ei chael yn anodd defnyddio systemau digidol.
- Dywedodd pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol bod arnyn nhw eisiau dulliau o gyfathrebu â'r Cyngor mewn ieithoedd eraill neu drwy gyfleusterau cyfieithu, ac i wybodaeth gael ei chyflwyno mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhai hefyd wedi gofyn am wasanaeth i gwsmeriaid sy'n fwy cyfeillgar a hyderus.
- Mae llawer o ofalwyr yn awyddus i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth da a chefnogaeth i weithwyr yn y Cyngor, ac mae rhai yn pryderu y gallai fod gormod o bwyslais ar y Gymraeg.
- Mae rhai pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol wedi dweud bod dulliau cyfathrebu â'r Cyngor nad ydyn nhw'n ddigidol yn bwysig i bobl nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd.
- Mae rhai yn credu, yn enwedig trigolion gwledig, fod angen i'r Cyngor fynd ati'n weithredol i hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan drwy gylchlythyrau cymunedol ac ati. Gallai'r Cyngor hefyd helpu i hyrwyddo mentrau cymunedol sy'n cefnogi pobl â chostau byw.
- Mae rhai ymatebwyr sy'n siaradwyr Cymraeg wedi dweud y byddai'r dewis i gyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg yn well pe bai mwy o weithwyr yn gallu siarad Cymraeg. Mae rhai siaradwyr Cymraeg hefyd yn credu y gellid defnyddio technoleg mewn ffordd well i gefnogi staff y Cyngor i gyfathrebu yn Gymraeg.

Pa wahaniaeth mae eich adborth chi wedi'i wneud?

Mae'r adborth wedi amlygu'r cynnydd a'r datblygiadau rydym ni eisoes wedi'u gwneud drwy ein rhaglen Dulliau Gweithio Modern ac yn cydnabod, wrth gefnogi canlyniadau cyffredinol, bod y rhain yn themâu trawsbynciol sydd wedi'u sefydlu yn ein gweithrediadau a'n 'dulliau gweithio', sy'n cefnogi darpariaeth ein gwasanaethau mewn ffordd fodern a chadarn.

Mae'r ymgynghori hefyd wedi amlygu bod rhai o'r datganiadau o ganlyniadau yn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau eraill y Cyngor.

Mae'r datganiadau o ganlyniadau canlynol wedi'u mireinio ac wedi'u sefydlu yn ein blaenoriaeth Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel:

- Mae ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n hawdd, trwy systemau digidol sydd wedi'u hadeiladu i amgylch eu hanghenion. Mae ein gwasanaethau yn gynhwysol ac rydym ni'n sicrhau ein bod yn cefnogi'r cwsmeriaid hynny a hoffai ddefnyddio ein

gwasanaethau digidol, yn ogystal â pharhau i gynnig ffyrdd mwy traddodiadol o gysylltu â ni, ar gyfer y rhai sydd ei angen.

- Mae Wrecsam yn lle y mae pawb yn gwybod y gallant gymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Pobl yn teimlo’r ymgysylltiad a bod y Cyngor yn ymgynghori â nhw ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a, ble bo'n bosib’, ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau; a gwneud i bethau ddigwydd gyda’n gilydd.

Bydd yr holl adborth sydd wedi dod i law yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiad fframwaith perfformiad, a fydd yn cynnwys mesurau canlyniadau a chamau gweithredu a mesurau ategol i hysbysu meysydd gwaith ac i fynd i’r afael â phryderon.

Yn dilyn yr adborth, a’r ymgynghoriad gydag Aelodau Etholedig yn haf a hydref 2023, mae ffocws y flaenoriaeth hon wedi’i newid i sicrhau bod gennym ni weithlu medrus ac amrywiol sydd wedi’i gefnogi gan arferion rheoli pobl cadarn a dull gweithredol i gefnogi lles gweithwyr, er mwyn darparu ein gwasanaethau.

O ganlyniad mae’r flaenoriaeth ddrafft hon wedi’i disodli gan y flaenoriaeth yn ein cynllun terfynol.

Cynnal gweithlu tra medrus a brwdfrydig sy’n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau.

Canfyddiadau Manwl ar gyfer: Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn



Ydych chi'n cytuno y dylai Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028?	Nifer yr ymatebwyr	Canran ymatebwyr yr arolwg
Anghytuno'n gryf	2	1.2
Anghytuno	6	3.5
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	22	12.9
Cytuno	78	45.9
Cytuno'n gryf	61	35.9
Ddim yn gwybod	1	0.6
Cyfanswm	**170**	**100.0**

Roedd 81.8% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 – 2028.

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth ddrafft hon ymysg y bobl a oedd wedi ymateb i'r arolwg, gan gynrychioli'r amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig ac ardaloedd daearyddol, trefol a gwledig, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn: Canlyniad – Mae'r Cyngor yn gweithio mewn ffordd fodern i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithlon.

Roedd 70.6% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau Cyngor modern a chadarn.

Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Sicrhau bod gennym ni systemau digidol da sy'n hawdd eu defnyddio –** Mae hyn yn cynnwys atebion technegol fel gwella systemau ar-lein fel 'Fy Nghyfrif', datblygu prosesau haws i roi gwybod am broblemau, technoleg cyfieithu integredig, datrysiadau cyflym i faterion TG a rhagor o leoliadau cyswllt wi-fi.

Dywedodd pobl eraill:

- **Cynyddu'r sianeli cyfathrebu ar gyfer pob maes gwasanaeth -** Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu a hyrwyddo mentrau a gweithgareddau partner a chymunedol.

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn: Canlyniad – *Mae pobl yn dewis gweithio i'r Cyngor. Mae amodau gwaith yn dda, sy'n cynnwys darpariaethau polisi gweithlu modern.

Roedd 62.5% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau Cyngor modern a chadarn. Y thema gyson yn yr adborth ansoddol ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Sicrhau cefnogaeth a chyfleoedd gwaith da i weithwyr y Cyngor –** Mae hyn yn cynnwys y weledigaeth bod y Cyngor yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel 'cyflogwr o ddewis' a bod ganddo gyfraddau cadw da a gefnogir gan:

- Proses ymgeisio hygyrch ond cadarn
- Cefnogaeth gref ar gyfer iechyd meddwl a lles
- Tâl cystadleuol a theg
- Dull cynhwysol

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn: Canlyniad – *Mae'n hawdd i bobl gysylltu â ni, sut bynnag y byddan nhw am wneud hynny. Mae systemau digidol yn hawdd i'w defnyddio, rydym ni'n cefnogi'r bobl nad ydyn nhw'n gallu mynd ar-lein i gael gafael ar wasanaethau mewn ffyrdd eraill.

Roedd 66.1% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau Cyngor modern a chadarn. Y themâu cyson yn yr adborth ansoddol ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Ei gwneud yn hawdd i bobl gysylltu â'r Cyngor –** Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo eu bod nhw'n gallu cysylltu â phob maes gwasanaeth yn y Cyngor. Mae'r adborth yn nodi bod cyfran o'r boblogaeth yn dal i fod yn hoff o allu cysylltu â'r Cyngor wyneb yn wyneb neu siarad â nhw dros y ffôn, yn enwedig pobl nad ydyn nhw'n gallu rhyngweithio'n ddigidol.
- **Darparu ar gyfer rhyngweithio nad yw'n ddigidol –** Sicrhau bod gwasanaethau'n darparu ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n gallu rhyngweithio â'r Cyngor yn ddigidol

Yn ogystal â hyn, gwnaeth eraill sôn ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn hyrwyddo ei hun, ei weithgareddau ac unrhyw newid i wasanaethau yn ddigidol a heb fod yn ddigidol fel bod pawb yn cael eu cynnwys ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dulliau nad ydyn nhw'n ddigidol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori.

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn: Canlyniad – Mae ein systemau TGCh yn ein galluogi ni i ddarparu gwasanaethau yn gyson ac yn ddiogel.

Roedd 61.4% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau Cyngor modern a chadarn. Nid oedd adborth ysgrifenedig nac ar lafar penodol gan bobl am y canlyniad hwn.

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn: Canlyniad – Mae swyddfeydd y Cyngor yn effeithlon, yn hyblyg ac mae ganddyn nhw ôl troed carbon is.

Roedd 50.6% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau Cyngor modern a chadarn.

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn: Canlyniad – *Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ffynnu yn ein gweithlu a'n cymunedau ac yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi.

Roedd 44.1% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau Cyngor modern a chadarn. Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Gormod o bwyslais ar y Gymraeg -** Dywedodd rhai eu bod nhw'n credu bod yr arian sy'n cael ei wario ar sicrhau bod popeth yn ddwyieithog yn creu gwastraff ac y byddai rhoi'r dewis i drigolion ddewis peidio â chael deunydd cyfathrebu yn ddwyieithog yn torri cost gwastraff yn sylweddol. Roedd rhai yn credu bod rhoi gormod o bwyslais ar y Gymraeg yn atal datblygiad ac economi'r ardal a bod y gofyniad 'Y Gymraeg yn hanfodol' mewn hysbysebion swyddi yn gallu bod yn rhwystr i recriwtio.
- **Mwy o gyfleoedd a chyllid i bawb ddysgu ac ymarfer siarad Cymraeg -** Dywedodd rhai pobl y dylai'r Cyngor gynnig mwy o gyfleoedd yn rhad ac am ddim i bawb ddysgu Cymraeg (oedolion, plant, rhieni plant sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg) a chefnogi cyfleoedd iddyn nhw ymarfer mewn amgylchedd cymdeithasol, gan eu bod nhw'n credu y gall cost cyrsiau fod yn rhy uchel.

Dywedodd pobl eraill

- **Canolbwyntio mwy ar y Gymraeg –**Dywedodd rhai pobl fod cefnogaeth i'r Gymraeg yn y Cyngor yn bwysig iawn i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaeth cyfartal.
- **Sicrhau bod trigolion yn cael cyfle i gyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg a chefnogi'r Gymraeg yn y Cyngor -** Roedd rhai pobl yn dymuno cael Cyngor sy'n cynnwys mwy o weithwyr sy'n siarad Cymraeg ac yn gallu sicrhau bod trigolion yn cael cyfle i gyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg. Defnyddio mwy o dechnoleg i gefnogi pobl. Hyrwyddo'r dewis i gyfathrebu yn Gymraeg gyda'r Cyngor.

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn: Canlyniad – Mae cyllid y Cyngor yn cael ei reoli'n dda ac yn cefnogi blaenoriaethau ein Cyngor.

Roedd 58.8% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau Cyngor modern a chadarn. Roedd un sylw a gafwyd yn nodi y byddai strategaeth gaffael well yn sicrhau bod mwy o gyllideb y Cyngor yn cael ei chadw yn yr economi leol, gan roi hwb i fusnesau, swyddi ac economi'r Fwrdeistref Sirol.

Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn: Canlyniad – *Mae Wrecsam yn lle y mae pawb yn gwybod y gallant gymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau.

Roedd 50.6% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau Cyngor modern a chadarn. Y themâu cyson yn yr adborth ansoddol ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Trin pawb yn deg** - Mae rhai trigolion cefn gwlad yn credu nad ydyn nhw'n cael eu cynrychioli a bod gormod o bwyslais ar ganol y ddinas. Maen nhw o'r farn bod angen i Wrecsam groesawu'r ardaloedd gwledig a sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynnwys ym mhob cynllun. Dywedodd rhai pobl fod angen i'r Cyngor gynrychioli'r gymuned leol a'i hamrywiaeth a bod angen ymrwymiad i gynnig gwybodaeth, ymgynghori ac ymgysylltu mewn ieithoedd lleol eraill yn ogystal â'r Gymraeg a'r Saesneg.

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel

Fe ddywedoch chi wrthym ni:

> "Mae'n bwysig bod pawb yn cael cyfle teg a chyfartal i fanteisio ar wasanaethau"

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth ddrafft hon ac roedd pobl yn cytuno/cytuno'n gryf â'r datganiadau o ganlyniadau a gynigiwyd. Y themâu allweddol yn yr adborth oedd:

- Cyfleoedd cyfartal i bawb - darpariaeth gwasanaethau teg a digonol
- Sicrhau nad yw ardaloedd gwledig / anghysbell yn cael eu hanwybyddu na'u heithrio
- Yr angen am ddarpariaeth tai digonol a phriodol
- Yr angen i deimlo'n ddiogel yng nghanol y ddinas a mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Hyrwyddo cynhwysiant a goddefgarwch ond sicrhau nad yw'r pwyslais ar grwpiau lleiafrifol ar draul cyfle cyfartal i bawb
- Cefnogaeth i effeithiau'r argyfwng costau byw
- Cludiant cyhoeddus er mwyn sicrhau bod yr un hawl gan bawb i fanteisio ar wasanaethau

Awgrymwyd hefyd y dylid aralleirio'r flaenoriaeth ddrafft hon i gael gwared ar unrhyw amwysedd a rhoi mwy o eglurder a manylder o ran yr ystyr.

Y bylchau posib' ar gyfer y flaenoriaeth hon oedd:

- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy cyffredinol a mynd i'r afael ag effaith negyddol ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gymunedau .
- Sicrhau bod isadeiledd priodol ac adnoddau cymunedol yn cefnogi darpariaeth tai.
- Yr angen i sicrhau ein bod ni'n gwneud gwaith i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o'r amrywiaeth yn ein cymunedau.

Wrth edrych ar adborth gan wahanol grwpiau yn ein cymunedau, rydym ni wedi gallu nodi'r canlynol:

- Mae llawer o blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn cytuno â'r canlyniadau arfaethedig dan y flaenoriaeth hon, ac yn arbennig bydden nhw'n dymuno i'n strydoedd ni gael eu gwneud yn fwy diogel i ferched ifanc gyda'r nos, drwy sicrhau bod mwy o fannau diogel ar gael i bobl ifanc ymgynnull gyda'r nos.
- Byddai rhai merched yn eu harddegau hwyr yn dymuno cael rhywle yng nghanol y ddinas iddyn nhw gael mynd iddo i deimlo'n ddiogel, yn enwedig gyda'r nos
- Thema ymhlith pobl hŷn oedd pryder ynghylch cael darpariaeth ddigonol a phriodol o dai sector cyhoeddus a phreifat i bobl.
- Mae llawer o bobl anabl yn pryderu ynghylch cyflwr llety yn y sector preifat a chyhoeddus, diogelwch ar y strydoedd a darpariaeth ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

- Mae llawer o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn pryderu ynghylch y cysylltiad rhwng cyrff statudol a chymunedau, amodau tai (yn enwedig ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches) a gofal plant fforddiadwy.
- Mae llawer o ofalwyr yn pryderu am ddarpariaeth tai priodol a digonol. Byddai rhai gofalwyr yn dymuno gweld mwy o gefnogaeth yn cael ei rhoi i gymunedau gwledig/anghysbell. Mae rhai gofalwyr hefyd yn pryderu ynghylch diogelwch yng nghanol dinas Wrecsam.
- Mae llawer o bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn dweud bod angen rhagor o gefnogaeth gan y Cyngor arnyn nhw i'w helpu nhw i reoli costau byw. Mae hyn yn cynnwys cymorth i lywio'r system fudd-daliadau, darparu adeiladau cymunedol amlddefnydd ac ymateb amlasiantaeth i droseddu. Dywedodd rhai pobl fod angen tai cymdeithasol ychwanegol i gwrdd ag anghenion heb eu diwallu.

Pa wahaniaeth mae eich adborth chi wedi'i wneud?

- Ar y cyfan, nid oes newid sylweddol wedi'i wneud i'n datganiadau o ganlyniadau ar gyfer y flaenoriaeth ddrafft hon, fodd bynnag, yn ein cynllun terfynol mae ychydig o'r geiriad wedi'i newid i ddarparu mwy o eglurder. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at weithio mewn partneriaeth gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus ddarparu rhai o'r canlyniadau, fel teimlo a bod yn ddiogel yn y fwrdeistref sirol a diogelu pobl rhag camfanteisio a chamdriniaeth.

Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiad fframwaith perfformiad, a fydd yn cynnwys mesurau canlyniadau a chamau gweithredu a mesurau ategol i hysbysu meysydd gwaith ac i fynd i'r afael â phryderon. Ochr yn ochr â hyn bydd yr adborth yn sgil yr ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiadau ar lefel gwasanaeth, yn cynnwys datblygu cynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2023-26 a'r cynllun gweithredu ategol.

Mae dau ganlyniad dan y flaenoriaeth Sicrhau Cyngor Modern a Chadarn (o ran gwasanaethau digidol a chyfranogi) wedi'u cynnwys dan y flaenoriaeth hon yn ein cynllun terfynol.

Mae materion yn ymwneud â chludiant cyhoeddus fel rhan o isadeiledd cludiant cynaliadwy wedi'u cynnwys yn y flaenoriaeth hon. Darparu Gwasanaethau Stryd effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd.

Canfyddiadau Manwl ar gyfer: Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel



Ydych chi'n cytuno y dylai Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028?	Nifer yr ymatebwyr	Canran ymatebwyr yr arolwg
Anghytuno'n gryf	7	4.4
Anghytuno	1	0.6
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7	4.4
Cytuno	40	25.2
Cytuno'n gryf	104	65.1
Ddim yn gwybod	0	0.0
Cyfanswm	159	99.7

Roedd 90.3% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 – 2028. Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth ddrafft hon ymysg y bobl a oedd wedi ymateb i'r arolwg, gan gynrychioli'r amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig ac ardaloedd daearyddol, trefol a gwledig, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel: Canlyniad – Mae cymunedau'n fwy diogel ac yn teimlo'n fwy diogel wrth i droseddu effeithio ar lai o bobl, ac wrth i gefnogaeth gael ei rhoi i bobl sydd wedi'u heffeithio gan drosedd.

Roedd 75.5% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.

Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Gorfodi deddfwriaeth / mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol –** Sicrhau yr ymdrinnir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol yn brydlon ac yn briodol, gan gynnwys camau gorfodi ar gyfer materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon, taflu sbwriel a goryrru. Meithrin cysylltiadau cymunedol cadarnhaol â'r heddlu, a sicrhau bod presenoldeb heddlu amlwg lle bo angen.
- **Yr angen i deimlo'n ddiogel yng nghanol y ddinas** – Nid oedd canol y ddinas yn cael ei ystyried yn ddiogel oherwydd lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu canfyddiadol, diffyg presenoldeb heddlu amlwg, a diffyg ymdeimlad o gymuned o amgylch ardal canol y ddinas.

Dywedodd eraill:

- Darparu lle diogel i ddefnyddwyr sylweddau, i hyrwyddo lleihau niwed a chadw pobl draw o amgylcheddau a chymdeithion niweidiol.
- Cael gwared ar y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus gan ei fod yn gosod stigma ar bobl ag anghenion cymhleth ac yn eu gwthio nhw i'r cyrion – mae angen ymyriadau mwy cadarnhaol.
- Gwella a chynnal goleuadau stryd i wella diogelwch ar ôl iddi dywyllu.

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel: Canlyniad – *Cedwir mwy o bobl yn ddiogel rhag achosion o gamfanteisio, trais a phob math o gamdriniaeth.

Roedd 71.4% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel. Nid oedd adborth ysgrifenedig nac ar lafar penodol gan bobl am y canlyniad hwn.

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel: Canlyniad – *Mae ein cymunedau ni'n groesawgar. Rydym ni'n hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau ac yn sicrhau bod cyfleoedd i bawb allu manteisio ar y gwasanaethau i gyd.

Roedd 71.2% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.

Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Cyfle cyfartal i bawb/y boblogaeth ehangach -** Gallai canolbwyntio ar grwpiau lleiafrifol/bach neu faterion penodol arwain at anfantais (neu ganfyddiad o anfantais) i grwpiau mwy neu'r boblogaeth ehangach.

Dywedodd rai pobl:

- **Dylai canolbwyntio ar integreiddio ac amrywiaeth ein cymunedau sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn deg** – Roedd hyn yn adlewyrchu barn wahanol ar sut y gellid sicrhau bod pawb yn ein cymunedau yn cael eu trin yn deg a sut y gellir lleihau rhaniadau rhwng pobl.

Dywedodd eraill:

- **Mae angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo amrywiaeth yn Wrecsam ac i gefnogi integreiddio diwylliannau a goddefgarwch i farn pobl.** Mae hyn yn cynnwys trin pobl â goddefgarwch a thrugaredd, cydnabod a derbyn gwahaniaeth, dathlu amrywiaeth, atal aflonyddu ac allgáu, a hyrwyddo gwell dealltwriaeth.

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel: Canlyniad – Mae pobl sy'n chwilio am loches rhag rhyfel neu argyfwng dyngarol yn cael eu cefnogi i adeiladu dyfodol cynaliadwy yn y ddinas.

Roedd 73.2% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel. Nid oedd adborth ysgrifenedig nac ar lafar penodol gan bobl am y canlyniad hwn.

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel: Canlyniad – Gall tenantiaid y Cyngor gael tai o ansawdd priodol â chefnogaeth gwasanaethau modern, effeithlon ac ymatebol.

Roedd 67.3% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.

Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Darpariaeth tai digonol a phriodol -** Datblygu darpariaeth tai cyhoeddus a phreifat i fodloni amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys cartrefi i deuluoedd ac aelwydydd llai. Sicrhau bod y ddarpariaeth tai yn cael ei chefnogi gan isadeiledd priodol ac adnoddau cymunedol, ac yn cefnogi tenantiaid a landlordiaid ym mhob sector i wella a chynnal safonau a hyrwyddo tenantiaethau cynaliadwy.

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel: Canlyniad – Mae mwy o bobl yn byw mewn llety sector preifat a chyhoeddus o ansawdd gwell, sy'n cydymffurfio â safonau a deddfwriaeth tai cenedlaethol.

Roedd 69.3% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.

Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Darpariaeth tai digonol a phriodol -** Datblygu darpariaeth tai cyhoeddus a phreifat i fodloni amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys cartrefi i deuluoedd ac aelwydydd llai. Cefnogi tenantiaid a landlordiaid ym mhob sector i wella a chynnal safonau a hyrwyddo tenantiaethau cynaliadwy.

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel: Canlyniad – Bydd pobl yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i lety addas ac aros ynddo, gan leihau digartrefedd a'r nifer sy'n cysgu allan.

Roedd 72.5% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.

Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Darpariaeth tai digonol a phriodol -** Datblygu darpariaeth tai cyhoeddus a phreifat i fodloni amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys cartrefi i deuluoedd ac aelwydydd llai.

Cefnogi tenantiaid a landlordiaid ym mhob sector i wella a chynnal safonau a hyrwyddo tenantiaethau cynaliadwy.

- **Rhagor o gymorth i bobl ddigartref -** Sicrhau bod pobl ddigartref yn cael cymorth sy'n briodol i'w hanghenion a bod dyletswyddau digartrefedd statudol yn cael eu cyflawni yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol

Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel: Canlyniad – Bydd pob cymuned a phobl sy'n wynebu tlodi a heriau â chostau byw yn cael mynd at wasanaethau sy'n gwella ansawdd eu bywyd.

Roedd 72.7% o'r bobl a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i sicrhau bod Wrecsam yn lle teg a diogel.

Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Cymorth â chostau byw -** Dywedodd lawer o bobl fod angen cymorth â'r argyfwng costau byw, gan gynnwys cymorth i aelwydydd sy'n gweithio ag incwm uwchlaw'r trothwy budd-daliadau sydd, serch hynny, yn ei chael yn anodd â phwysau costau byw

Gwella Addysg a Dysgu (gan ganolbwyntio ar addysg uwchradd)

Fe ddywedoch chi wrthym ni:

> "Mae gwella safonau a chyfleoedd addysgol bob amser yn mynd i fod yn uchelgais, mae'n bwysig canolbwyntio ar sgiliau bywyd a chyflogadwyedd ar gyfer dysgwyr o bob oed".

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth ddrafft hon ac roedd pobl yn cytuno/cytuno'n gryf â'r datganiadau o ganlyniadau a gynigiwyd.

Y themâu allweddol yn yr adborth oedd:

- Gwella ansawdd ein darpariaeth mewn ysgolion a gallu sicrhau'r ddarpariaeth gywir ar gyfer y dysgwr
- Gwell canlyniadau trwy wella darpariaeth mewn ysgolion uwchradd
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, mwy o ffocws ar anghenion dysgu ychwanegol
- Gwella cludiant ysgol (costau, ar ôl 16 oed, cyfrwng Cymraeg) a chludiant ar gyfer cyflogaeth
- Gwell canlyniadau trwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb – cael gafael ar y ddarpariaeth gywir
- Canolbwyntio ar sgiliau bywyd a chyflogadwyedd a dysgwyr o bob oed
- Mwy o bwyslais ar bwysigrwydd addysg ysgol gynradd
- Mwy o eglurder yn y datganiadau o ganlyniadau

Y bylchau posib' a nodwyd yn yr adborth oedd:

- Mae angen cyfeirio'n fwy penodol at ddysgwyr ôl-16 ac oedolion yn y flaenoriaeth hon.

- Bod yn fwy penodol ynghylch gallu dysgwyr i gael gafael ar y ddarpariaeth gywir.
- Canolbwyntio ar anghenion dysgu ychwanegol.
- Teimlad y byddai'r flaenoriaeth hon yn elwa o fod yn fwy penodol - mae'r datganiadau yn rhy amwys.
- Gellir defnyddio iaith sy'n fwy hygyrch.

Gan edrych ar yr adborth gan amrywiaeth o grwpiau yn ein cymunedau:

Mae llawer o blant a phobl ifanc yn cytuno y byddai'r canlyniad arfaethedig dan y flaenoriaeth hon yn cael effaith gadarnhaol arnyn nhw. Dywedodd y plant a'r bobl ifanc y gallai ymdrechion i leihau anghydraddoldebau mewn deilliannau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr gael effaith negyddol ar rai dysgwyr.

Mae dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol wedi nodi bwlch yn y ddarpariaeth i fynd i'r afael â'r cyfleoedd dysgu ar gyfer pobl 25-40 oed, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau a chael hyfforddiant.

Mae rhai pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol wedi nodi bod angen mwy o glybiau ieuenctid a gweithgareddau i bobl ifanc. Mae pobl ifanc a'u teuluoedd wedi dweud bod angen cymorth arnyn nhw hefyd i reoli costau addysg bellach.

Mae rhai wedi awgrymu darparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 yn eu hadborth.

Pa wahaniaeth mae eich adborth chi wedi'i wneud?

- Arweiniodd adborth yn ymwneud â rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd addysg ysgol gynradd at ddiwygiad arfaethedig i deitl y flaenoriaeth sef dileu 'sy'n canolbwyntio ar addysg uwchradd'. Mae teitl y flaenoriaeth yn y cynllun terfynol wedi'i newid i: Gwella Addysg a Dysgu.

- Arweiniodd adborth yn ymwneud â chynnwys sgiliau bywyd a chyflogaeth at ddiwygio'r canlyniad ar sgiliau newydd a chyfleoedd hyfforddiant a dysgu, gan ddileu'r cyfeiriad at 'Cwricwlwm i Gymru' sy'n benodol i ddysgwyr oedran ysgol. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

  > Caiff ein dysgwyr eu cefnogi i ymgysylltu a bod yn uchelgeisiol; gan wneud y mwyaf o sgiliau newydd, cyfleoedd hyfforddi a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc.

- Mae adborth ar gydweithio gyda phartneriaid wedi arwain at newid i'r canlyniad ynglŷn â gwydnwch, iechyd a lles, i gynnwys y gair 'cydweithio'. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

  > Mae ein dysgwyr yn cyfrannu'n weithredol at eu dysgu eu hunain ac mae eu gwytnwch, eu hiechyd a'u lles wedi'u cefnogi gan gydweithio gyda'n partneriaid.

- Mae adborth ar gyfleoedd cyfartal i bawb wedi arwain at newid ein canlyniad ynglŷn â gwella canlyniadau addysg a lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

  > *Caiff yr holl ddysgwyr gefnogaeth i wella eu canlyniadau addysgol, a bydd anghydraddoldebau mewn canlyniadau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgu yn cael eu lleihau.

  Mae hwn yn un o'n hamcanion cydraddoldeb strategol, fel y mae'r seren yn ei amlygu.

- Arweiniodd adborth yn ymwneud ag iaith amwys, yn enwedig yr ymadrodd 'dewis iaith', at ddiwygio ein canlyniad yn ymwneud â lleoliadau addysg. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

  > *Mae ein dysgwyr yn cael profiad dysgu cadarnhaol trwy fynediad at amgylchedd sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben ac yn caniatáu dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

  Mae hwn yn un o'n hamcanion cydraddoldeb strategol, fel y mae'r seren yn ei amlygu.

- Rhoddwyd sylw i'r angen am fwy o eglurder yn y datganiadau o ganlyniadau, ac mae'r paragraffau rhagarweiniol yn adran 'Gwella Addysg a Dysgu' Cynllun y Cyngor yn rhoi rhagor o fanylion.

Bydd yr holl adborth sydd wedi dod i law yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiad fframwaith perfformiad, a fydd yn cynnwys mesurau canlyniadau a chamau gweithredu a mesurau ategol i hysbysu meysydd gwaith ac i fynd i'r afael â phryderon.

Canfyddiadau Manwl ar gyfer: Gwella Addysg a Dysgu



Ydych chi'n cytuno y dylai Gwella Addysg a Dysgu fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028?	**Nifer yr ymatebwyr**	**Canran ymatebwyr yr arolwg**
Anghytuno'n gryf	2	1.3
Anghytuno	1	0.7
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	12	7.8
Cytuno	41	26.6
Cytuno'n gryf	98	63.6
Ddim yn gwybod	0	0.0
Cyfanswm	**154**	**100.0**

Roedd 90.2% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai Gwella Addysgu a Dysgu fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 – 2028.

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth ddrafft hon ymysg y bobl a oedd wedi ymateb i'r arolwg, gan gynrychioli'r amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig ac ardaloedd daearyddol, trefol a gwledig, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gwella Addysg a Dysgu: Canlyniad – Er mwyn cefnogi ein huchelgais economaidd a lles ar gyfer Wrecsam, mae canlyniadau dysgwyr o bob oed wedi gwella, maen nhw'n gallu cyflawni eu potensial a dod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu cymunedau.

Roedd 82.3% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i wella addysg a dysgu.

Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Canolbwyntio ar sgiliau bywyd a chyflogaeth** - Roedd ar lawer o bobl eisiau darpariaeth addysg yn Wrecsam i roi'r hyn sydd ei angen ar ddysgwyr i lwyddo yn y dyfodol, ochr yn ochr â phynciau sy'n cyd-fynd yn well â'r byd gwaith. Roedd ar lawer o bobl hefyd eisiau gwell darpariaeth dysgu ôl-16, gan gynnwys gwella prentisiaethau a phynciau sy'n cyd-fynd â'r bwlch sgiliau yn Wrecsam. Soniodd eraill am bwysigrwydd llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr.
- **Canolbwyntio ar ddysgwyr yn cael cyfle cyfartal i wella canlyniadau i bawb -** Mae hyn yn golygu sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un cyfleoedd a darpariaeth gywir ar gyfer eu gallu, gan gynnwys grwpiau sy'n tangyflawni a dysgwyr mwy abl a thalentog. Roedd llawer o bobl eisiau mwy o bwyslais ar godi dyheadau ym mhob grŵp o ddysgwyr gan gynnwys dysgwyr sydd wedi ymddieithrio trwy hyrwyddo gwahanol fathau o lwybrau i fyd gwaith. Dywedodd eraill y dylem ni leihau rhwystrau i ddysgu, yn cynnwys adfer o effaith COVID-19 a gwella'r pontio rhwng cyfnodau addysg i sicrhau integreiddio llwyddiannus.
- **Gwella ansawdd y ddarpariaeth yn Wrecsam, drwy gael ysgolion sy'n perfformio'n well** - Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dymuno i Wrecsam gael ysgolion sy'n perfformio'n dda a llai o ysgolion mewn categorïau statudol. Dywedodd eraill y dylem ni wella ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys denu arweinwyr ac addysgwyr o safon i'r ardal, a chadw ymarferwyr medrus. Ochr yn ochr â hyn, dylid darparu cyllid priodol i wella adnoddau.

Gwella Addysg a Dysgu: Canlyniad – Caiff ein dysgwyr eu cefnogi i ymgysylltu a bod yn uchelgeisiol; gan wneud y mwyaf o sgiliau newydd, cyfleoedd hyfforddi a dysgu a gynigir gan y Cwricwlwm i Gymru.

Roedd 76.6% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i wella addysg a dysgu.

Dywedodd rai pobl:

- **Addysg gynradd yn adeiladu seiliau cryf -** Dywedodd rhai y dylai addysg gynradd gael yr un statws ag addysg uwchradd yn y flaenoriaeth, gan sicrhau pwyslais ar siwrnai gyfan y dysgwr. Dylai addysg gynradd ddarparu'r adnoddau a'r sgiliau i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael addysg uwchradd a'u bod nhw'n awyddus ac yn barod i ddysgu.

Gwella Addysg a Dysgu: Canlyniad – Mae ein dysgwyr ni'n mynd i'r ysgol yn rheolaidd ac mae mwy o blant a theuluoedd yn cael eu cefnogi'n gynharach er mwyn cynyddu presenoldeb, gwella diogelu a lleihau gwaharddiadau.

Roedd 74.2% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i wella addysg a dysgu. Nid oedd adborth ysgrifenedig nac ar lafar penodol gan bobl am y canlyniad hwn.

Gwella Addysg a Dysgu: Canlyniad – Mae ein dysgwyr yn cyfrannu'n weithredol at eu dysgu eu hunain ac mae eu gwytnwch, eu hiechyd a'u lles wedi'u cefnogi gan gydweithio gyda'n partneriaid.

Roedd 75.0% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i wella addysg a dysgu.

Dywedodd rai pobl:

- **Gwella partneriaeth a chydweithio -** Roedd rhai yn credu y dylai fod rhagor o waith partneriaeth a chydweithio rhwng gwasanaethau, gan gynnwys partneriaid fel iechyd a'r heddlu. Dywedodd y bobl hyn fod angen gwell cysylltiadau â chymunedau, er mwyn sefydlu ysgolion cymunedol sy'n diwallu anghenion y cymunedau lleol a gweithio gyda rhieni fel partneriaid, gan eu cefnogi nhw i gefnogi eu plant.

Gwella Addysg a Dysgu: Canlyniad – *Caiff yr holl ddysgwyr gefnogaeth i wella eu canlyniadau addysgol, a bydd anghydraddoldebau mewn canlyniadau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgu yn cael eu lleihau.

Roedd 71.0% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i wella addysg a dysgu.

Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Canolbwyntio ar ddysgwyr yn cael cyfle cyfartal i wella canlyniadau i bawb** - Mae hyn yn golygu sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un cyfleoedd a'r ddarpariaeth gywir ar gyfer eu gallu, gan gynnwys grwpiau sy'n tangyflawni a dysgwyr mwy abl a thalentog. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar godi dyheadau ym mhob grŵp o ddysgwyr gan gynnwys dysgwyr sydd wedi ymddieithrio trwy hyrwyddo gwahanol fathau o lwybrau i fyd gwaith. Dylid lleihau'r rhwystrau rhag dysgu. Dylai hyn gynnwys parhau i adfer o effaith COVID-19 a gwella'r pontio rhwng cyfnodau addysg i sicrhau integreiddio llwyddiannus.

- **Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ag anghenion dysgu ychwanegol** – Sicrhau bod y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cymorth a'r adnoddau cywir i lwyddo. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnyn nhw i wella eu sgiliau sylfaenol. Dylai ysgolion gael eu hariannu i roi'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i'w galluogi nhw gael cyfle cyfartal i gael addysg, gan gynnwys ariannu cymorth gan gynorthwywyr addysgu a chymorth ac ymyrraeth gynnar.

Dywedodd eraill:

- **Lleihau effaith tlodi ar ganlyniadau addysgol -** Sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal i gael addysg a chostau addysg. Lleihau effaith tlodi ar ganlyniadau addysg a chael gwared ar y rhwystrau i ddysgu sy'n deillio o fyw mewn tlodi.

Gwella Addysg a Dysgu: Canlyniad – *Mae ein dysgwyr ni'n cael profiad dysgu cadarnhaol drwy gael lleoliadau addysg priodol, hyblyg a hygyrch a hynny yn eu dewis iaith.

Roedd 71.2% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i wella addysg a dysgu.

Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ag anghenion dysgu ychwanegol** – Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth a'r adnoddau cywir i lwyddo. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnyn nhw i wella eu sgiliau sylfaenol. Dylid ariannu ysgolion i roi'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i'w galluogi nhw i gael cyfle cyfartal i gael addysg. Dylai hyn gynnwys ariannu cymorth gan gynorthwywyr addysgu a chymorth ac ymyrraeth gynnar.
- **Gwella ansawdd addysg Gymraeg a'r cynnig i gael addysg Gymraeg mewn ysgolion –** Gwella'r addysg sy'n cael ei gynnig / cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd eraill:

- Mae geiriad y canlyniad hwn yn rhy amwys i ddeall yr hyn a olygir.
- Ydi cynnig holl addysg unigolion trwy gyfrwng iaith o'u dewis nhw yn realistig?
- **Gwella adeiladau a hygyrchedd lleoliadau addysg -** Gwella buddsoddiad hirdymor mewn ystâd addysgol, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni'r galw a bod adeiladau'n addas i'r diben ac yn bodloni gofynion hygyrchedd, gan sicrhau eu bod nhw'n gynhwysol i bawb. Sicrhau y gellir ateb y galw yn y dyfodol mewn ardaloedd lle mae cynnydd mewn datblygiadau tai.

Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da)

Fe ddywedoch chi wrthym ni:

> "Mae lles plant yn hollbwysig. Gall profiadau andwyol yn y blynyddoedd cynnar fod yn anodd iawn i'w goresgyn yn ddiweddarach mewn bywyd".

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth ddrafft hon ac roedd pobl yn cytuno/cytuno'n gryf â'r datganiadau o ganlyniadau a gynigiwyd.

Y themâu allweddol yn yr adborth am y flaenoriaeth ddrafft hon oedd:

- Gwella ansawdd darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol
- Mae angen cymorth i recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol a staff gofal da fel y gallwn ni ddarparu'r gwasanaethau rydym ni'n anelu at eu darparu
- Gallu cael gafael ar wasanaethau o ansawdd da yn haws a'r un gwasanaeth ble bynnag yr ydych chi'n byw (ardaloedd gwledig yn benodol) neu ba bynnag iaith yr ydych chi'n ei siarad (pobl nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg / Saesneg)
- Gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i gefnogi iechyd meddwl

- Mwy o gymorth a seibiant ar gael i ofalwyr
- Canolbwyntio ar atal a chymorth cynnar hanfodol fel nad oes angen rhagor o gymorth yn ddiweddarach
- Cynnwys y nod o fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw
- Cynnwys gweithio mewn partneriaeth
- Cydnabod gwahanol anghenion
- Cydnabod yr angen am wasanaethau da ym mhob ardal ddaearyddol o Wrecsam
- Cyfeiriad cyffredinol at y rhaglen lles ehangach – gan gydnabod effaith mannau gwyrdd ac agweddau eraill ar fywyd sy'n effeithio ar les

Y bylchau posib' a nodwyd yn yr adborth oedd:

- O bosib', ystyried ehangu'r datganiad canlyniad ar gyfer canlyniad:

  > Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gallu cael mynediad at leoliadau da a sefydlog sy'n caniatáu iddyn nhw ffynnu a sicrhau'r canlyniadau y maen nhw am eu cyflawni;

  i gynnwys 'hirdymor' ac yna hefyd i gynnwys cael mynediad at leoedd byw â chymorth/annibynnol.
- Ystyried diwygio'r canlyniadau i gynnwys y nod o fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw.

Gan edrych ar yr adborth gan amrywiaeth o grwpiau yn ein cymunedau, rydym ni'n nodi:

- Mae llawer o blant a phobl ifanc yn cytuno y byddai'r flaenoriaeth hon yn cael effaith gadarnhaol arnyn nhw. Maen nhw'n cefnogi'r angen i gael lleoliadau gofal maeth hirdymor a sefydlog a sefydlogrwydd o ran gweithwyr cymdeithasol.
- Mynegodd lawer o oedolion a phobl hŷn bryder ynghylch iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc.
- Mae rhai pobl grwpiau ethnig lleiafrifol wedi sôn am yr angen am sensitifrwydd diwylliannol i roi hyder i bobl siarad am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol ac i'w galluogi nhw i ddod o hyd i ffyrdd o fynegi eu hanghenion.
- Mae rhai pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol wedi rhoi pwyslais ar argaeledd gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol am bris rhesymol sydd ar gael i blant.
- Mae llawer o ofalwyr yn dymuno gweld gwell ansawdd a chysondeb yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol, a hefyd gwell tâl ac amodau i staff. Mae rhai gofalwyr yn dymuno i faterion recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol gael sylw. Pwysleisiodd gofalwyr eraill bwysigrwydd cydweithio i ddatblygu polisïau a strategaethau.
- Mae rhai pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn nodi bod angen cymorth penodol ar gyfer grwpiau fel yr henoed a rhieni plant sy'n derbyn gofal.

Pa wahaniaeth mae eich adborth chi wedi'i wneud?

- Mae'r adborth wedi arwain at newid canlyniad 'Does dim cymaint o blant yn cael gofal gan y Cyngor o ganlyniad i wasanaethau ataliol da a chymorth cynnar i deuluoedd'. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

Mae llai o blant sydd angen gofal gan y Cyngor o ganlyniad i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal effeithiol, gan leihau'r angen am ymyrraeth bellach.

- Mae adborth ynglŷn â'r angen am leoliadau gofal maeth hirdymor wedi arwain at newid i'r datganiad o ganlyniad ar gyfer lleoliadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gynnwys y gair 'hirdymor'. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

  Mae gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fynediad at ofal maeth hirdymor sefydlog, a lleoliadau preswylio â chefnogaeth (gyda mwy o leoliadau mewnol) ac yn cael profiadau da o fewn y lleoliadau hyn gan eu galluogi i ffynnu a chyflawni'r canlyniadau sydd arnyn nhw eisiau.

- Arweiniodd adborth yn ymwneud â chydnabod gwahanol anghenion a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth at ddiwygiad i'n datganiad o ganlyniad am bobl yn derbyn y gofal a'r cymorth cywir i gynnwys y geiriad 'cymorth ar gyfer eu hanghenion' a 'gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth'. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

  Mae pobl yn derbyn y gofal a chymorth iawn ar gyfer eu hanghenion, yn y lle iawn ac ar yr amser iawn, trwy ofal gwell yn y cartref, ail-alluogi a chapasiti therapi galwedigaethol (gyda llai o amseroedd aros ar gyfer asesiadau Therapi Galwedigaethol), wedi'i gyflawni drwy waith partneriaeth effeithiol.

- Mae adborth ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth hefyd wedi arwain at newid ein canlyniad o ran iechyd meddwl a lles, i gynnwys 'partneriaethau gwasanaethau'. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

  *Mae partneriaethau gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau yn cydweithio i helpu plant ac oedolion i gael iechyd meddwl da a lles. Mae yna ffocws ar gymorth iechyd meddwl a ddarperir drwy wasanaethau iechyd meddwl ataliol a chymorth cynnar gyda'r nod o leihau'r galw am wasanaethau yn hwyrach ymlaen.

  Mae hwn yn un o'n hamcanion cydraddoldeb strategol, fel y mae'r seren yn ei amlygu.

- Mae adborth ynglŷn â chydnabod anghenion gwahanol wedi arwain at newid ein canlyniad mewn perthynas â phobl yn cael mynediad at y lefelau cywir o ofal a chefnogaeth. Geiriad y datganiad hwn yn y cynllun terfynol yw:

  Mae gan bawb fynediad at y lefel iawn o ofal a chymorth ar gyfer eu hanghenion, drwy ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cyson o ansawdd da, wedi'i gefnogi gan Fwrdd Gwella Gofal Cymdeithasol.

Bydd yr holl adborth sydd wedi dod i law yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiad fframwaith perfformiad, a fydd yn cynnwys mesurau canlyniadau a chamau gweithredu a mesurau ategol i hysbysu meysydd gwaith ac i fynd i'r afael â phryderon.



Ydych chi'n cytuno y dylai Hyrwyddo Iechyd a Lles Da (sy'n canolbwyntio ar y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da) fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028?	**Nifer yr ymatebwyr**	**Canran ymatebwyr yr arolwg**
Anghytuno'n gryf	23	15.2
Anghytuno	2	1.3
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	9	6.0
Cytuno	34	22.5
Cytuno'n gryf	81	53.6
Ddim yn gwybod	2	1.3
Cyfanswm	**151**	**100.0**

Roedd 76.2% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai Hyrwyddo Iechyd a Lles Da (sy'n canolbwyntio ar y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da) fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2023 - 2028.

Roedd cefnogaeth frwd i'r flaenoriaeth hon ymysg y bobl a oedd wedi ymateb i'r arolwg, gan gynrychioli'r amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig ac ardaloedd daearyddol, trefol a gwledig, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da): Canlyniad – Does dim cymaint o blant yn cael gofal gan y Cyngor o ganlyniad i wasanaethau ataliol da a chymorth cynnar i deuluoedd.

Roedd 74.0% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i hybu iechyd a lles da. Y thema gyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Canolbwyntio ar atal a chymorth cynnar –** darparu gwasanaethau a chymorth yn gynnar i geisio helpu i atal yr angen am gymorth arall neu ragor o gymorth yn ddiweddarach.

Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da): Canlyniad – Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gallu cael mynediad at leoliadau da a sefydlog sy'n caniatáu iddyn nhw ffynnu a sicrhau'r canlyniadau y maen nhw am eu cyflawni.

Roedd 80.3% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i hybu iechyd a lles da. Y thema gyson yn yr adborth ansoddol ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uwch –** Yr angen am ddarpariaeth a phrosesau gofal cymdeithasol o ansawdd uwch, yn cynnwys gwell ymyriadau amserol; sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir pan fo angen. Gwaith cymdeithasol o ansawdd da yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r defnyddwyr gwasanaeth.

Dywedodd un unigolyn fod angen i leoliadau maeth fod yn rhai hirdymor yn ogystal ag yn sefydlog.

Dywedodd un unigolyn fod lleoedd byw â chymorth / annibynnol i bobl ifanc yn brin ond yn hanfodol.

Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da): Canlyniad – Mae pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, drwy well cymorth yn eu cartrefi eu hunain.

Roedd 75.2% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i hybu iechyd a lles da. Y themâu cyson yn yr adborth ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uwch** – Darpariaeth a phrosesau gofal cymdeithasol o ansawdd uwch, yn cynnwys gwell ymyriadau amserol; sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir pan fo angen. Gwaith cymdeithasol o ansawdd da yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r defnyddwyr gwasanaeth.

- **Gwell tâl ac amodau ar gyfer staff, mynd i'r afael â materion recriwtio a chadw -** mae cydnabyddiaeth ei bod yn her recriwtio'r gweithlu gofal a gofal cymdeithasol, a bod angen gwneud mwy i recriwtio a chadw'r staff hanfodol hyn os ydyn ni am i'n gwasanaethau ni fod o'r safon rydym ni'n dymuno iddyn nhw fod.

Dywedodd eraill:

- **Mwy o weithio mewn partneriaeth -** gweithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid i ddarparu gwell gwasanaethau a chanlyniadau i'r bobl yn ein cymuned, gan gynnwys datblygu timau sy'n ymgorffori gwasanaethau cyhoeddus eraill a darpariaeth y sector gwirfoddol.

- **Gwell gwasanaethau ar gyfer pob nodwedd warchodedig -** gwell gwasanaethau a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i bawb sydd â nodwedd warchodedig. Sicrhau bod ein gweithlu ni'n deall effaith gwahanol nodweddion gwarchodedig ar y ffordd y maen nhw'n darparu gwasanaethau.

Dywedodd pobl eraill hefyd:

- **Darparu gwasanaethau da ym mhob ardal ddaearyddol yn Wrecsam -** cyfle cyfartal i gael gafael ar wasanaethau da, cefnogaeth a chymorth waeth ble mae unigolyn yn byw yn y fwrdeistref sirol, yn enwedig ardaloedd gwledig

Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da): Canlyniad – *Mae plant ac oedolion yn cael eu cefnogi i sicrhau lles ac iechyd meddwl da. Bydd pawb yn cydweithio er mwyn sicrhau hyn ac yn canolbwyntio ar atal a chymorth cynnar.

Roedd 77.1% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i hybu iechyd a lles da. Y thema gyson yn yr adborth ansoddol ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Gwell gwasanaethau a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i gefnogi iechyd meddwl**

Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da): Canlyniad – Mae gan bawb fynediad at y lefelau cywir o ofal a chefnogaeth.

Roedd 80.4% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i hybu iechyd a lles da. Y themâu cyson yn yr adborth ansoddol ar gyfer y canlyniad oedd:

- **Darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uwch** – Gwell darpariaeth a phrosesau gofal cymdeithasol, yn cynnwys gwell ymyriadau amserol; sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir pan fo angen. Gwaith cymdeithasol o ansawdd da yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r defnyddwyr gwasanaeth.

- **Gwell tâl ac amodau ar gyfer staff, mynd i'r afael â materion recriwtio a chadw -** mae cydnabyddiaeth ei bod yn her recriwtio'r gweithlu gofal a gofal cymdeithasol, a bod angen gwneud mwy i recriwtio a chadw'r staff hanfodol hyn os ydyn ni am i'n gwasanaethau ni fod o'r safon rydym ni'n dymuno iddyn nhw fod.

Dywedodd eraill:

- **Mwy o weithio mewn partneriaeth -** gweithio'n amlach neu'n fwy effeithiol gyda phartneriaid i ddarparu gwell gwasanaethau a chanlyniadau i'r bobl yn ein cymuned, gan gynnwys datblygu timau sy'n ymgorffori gwasanaethau cyhoeddus eraill a darpariaeth y sector gwirfoddol.

- **Gwell gwasanaethau ar gyfer pob nodwedd warchodedig -** gwell gwasanaethau a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i bawb sydd â nodwedd warchodedig. Sicrhau bod y gweithlu yn deall effaith gwahanol nodweddion gwarchodedig ar y ffordd y maen nhw'n darparu gwasanaethau.

Dywedodd pobl eraill hefyd:

- **Darparu gwasanaethau da ym mhob ardal ddaearyddol yn Wrecsam -** cyfle cyfartal i gael gafael ar wasanaethau da, cefnogaeth a chymorth waeth ble mae unigolyn yn byw yn y fwrdeistref sirol, yn enwedig ardaloedd gwledig.

Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da): Canlyniad – *Rydym ni'n sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cymdeithasol ni'n bodloni anghenion pobl, drwy wrando ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Roedd 75.7% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i hybu iechyd a lles da. Nid oedd adborth ysgrifenedig nac ar lafar penodol gan bobl am y canlyniad hwn.

Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da): Canlyniad – Mae plant, oedolion a theuluoedd yn cael eu diogelu gan y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a phartneriaid statudol.

Roedd 76.0% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r canlyniad hwn yn ein helpu ni i hybu iechyd a lles da. Nid oedd unrhyw adborth ansoddol penodol am y canlyniad hwn.

Bydd yr holl adborth sydd wedi dod i law yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiad fframwaith perfformiad, a fydd yn cynnwys mesurau canlyniadau a chamau gweithredu a mesurau ategol i hysbysu meysydd gwaith ac i fynd i'r afael â phryderon.

5.3. Data Monitro Cydraddoldeb

Y nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu o ran cenedl, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys dim cred

Yn ogystal, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Dewisodd 125 o ymatebwyr ateb yr adran 'amdanoch chi' o'n harolwg, a oedd yn cynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb i'n cynorthwyo i nodi lle mae safbwyntiau'n amrywio ac i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n deg i bawb.

Drwy ymgysylltu â grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr, bu modd i ni ymestyn ein cyrhaeddiad i grwpiau a dangynrychiolir o fewn cohort yr arolwg ar-lein.

5.3.1. Oedran



Faint yw eich oed?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Dan 11	0	0.0
11-15 oed	2	1.6
16-24 oed	0	0.0
25-34 oed	5	4.0
35-44 oed	18	14.4
45-54 oed	31	24.8
55-64 oed	34	27.2
65-74 oed	23	18.4
75 oed neu'n hŷn	7	5.6
Mae'n well gen i beidio â dweud	5	4.0
Cyfanswm	**125**	**100.0**



Oedran	Canran yr ymatebwyr i arolwg Cynllun y Cyngor 2023-2028 (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran y boblogaeth, Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyfrifiad 2021)
0-15	1.6	18.42
16-24	0.0	9.4
25-44	18.4	24.7
45-64	52.0	27.2
65+	24.0	20.3

Yn seiliedig ar ymatebion y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb yn ein harolwg, mae'r tablau a'r graffiau yn dangos bod y rheiny yn y grwpiau oed ifanc wedi'u tangynrychioli yn ein harolwg a bod y rheiny rhwng 45 a 64 oed wedi'u gor-gynrychioli.

Mae ymgysylltu â Senedd yr Ifanc a grwpiau cymunedol wedi ein galluogi i gael adborth gan bobl iau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac adborth ychwanegol gan bobl hŷn.

5.3.2. Ailbennu Rhywedd

Nododd un ymatebwr i'n harolwg fod eu hunaniaeth ryweddol wedi newid o'r hyn a neilltuwyd ar enedigaeth. Mewn ymateb i gwestiwn Cyfrifiad 2021 am hunaniaeth o ran rhywedd, ymatebodd 0.4% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth.

5.3.3. Rhyw



Beth yw eich rhyw?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Gwryw	42	33.9
Benyw	77	62.1
Arall	0	0.0
Mae'n well gen i beidio â dweud	5	4.0
Cyfanswm	**124**	**100.0**



Rhywedd	Canran yr ymatebwyr i arolwg Cynllun y Cyngor 2023-2028 (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran y boblogaeth, Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyfrifiad 2021)
Gwryw	33.9	49.5
Benyw	62.1	50.5

Yn seiliedig ar ymatebion y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb yn ein harolwg, mae ein data yn dangos bod canran llawer uwch o ferched o gymharu â dynion wedi ymateb i'n harolwg. Daeth patrwm tebyg i'r amlwg pan wnaethom ymgysylltu â grwpiau cymunedol, ac eithrio'r fforwm Cynghorwyr Cymuned, lle'r oedd mwy o ddynion na merched yn cael eu cynrychioli.

5.3.4. Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu o ran cenedl, lliw neu genedligrwydd



Number and percentage of respondents to equality monitoring questions by national identity.

Sut fyddech chi'n disgrifio'ch Hunaniaeth Genedlaethol?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Cymreig	63	51.6
Seisnig	11	9.0
Albanaidd	0	0.0

Sut fyddech chi'n disgrifio'ch Hunaniaeth Genedlaethol?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Gwyddelig Gogleddol	0	0.0
Brydeinig	40	32.8
Arall	5	4.1
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	2.5
Total	**122**	**100.0**

Nid oes modd cymharu hyn gyda data cyfrifiad 2021 ar gyfer poblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan fod y cwestian ar hunaniaeth genedlaethol yng Nghyfrifiad 2021 yn caniatáu i bobl ddewis mwy nag un hunaniaeth genedlaethol.

Nododd 92.6% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn 'Beth yw eich grŵp ethnig' mai eu grŵp ethnig oedd Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogleddol neu Brydeinig). Dywedodd 3.3% eu bod o 'Unrhyw gefndir Gwyn arall' ac roedd yn well gan 4.1% beidio â dweud.



Beth yw eich grŵp ethnig?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Gwyn (Cymreig/ Saesnig/ Albanaidd/ Gogledd Iwerddon/ Prydeinig)	113	92.6
Gwyddelig	0	0.0
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0	0.0
Roma	0	0.0
Unrhyw gefndir Gwyn arall	4	3.3
Asiaidd - Indiaidd	0	0.0
Asiaidd - Pakistanaidd	0	0.0
Asian - Bangladeshi	0	0.0
Asiaidd - Tsieinëeg	0	0.0
Asiaidd - Unrhyw gefndir Asiaidd arall	0	0.0
Du - Caribïaidd	0	0.0
Du – Affricanaidd	0	0.0
Du - neu Gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall	0	0.0
Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd	0	0.0
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	0	0.0
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	0	0.0
Unrhyw gefndir Ethnig Cymysg / Lluosog arall	0	0.0
Arabaidd	0	0.0
Unrhyw ethnigedd arall	0	0.0
Mae’n well gen i beidio â dweud	5	4.1
Total	122	100.0

Nododd data cyfrifiad 2021 fod y boblogaeth ethnig Gwyn Prydeinig yn cyfrif am 90.7% o’r boblogaeth, gyda’r holl ethnigrwydd arall gyda’i gilydd yn cyfrif am 9.3% o’r boblogaeth.



Grŵp ethnig (Cyfrifiad 2021)	Canran yr ymatebwyr i arolwg Cynllun y Cyngor 2023-2028 (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran y boblogaeth, Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyfrifiad 2021)
Gwyn Prydeinig	92.6	90.7
Gwyn arall	3.3	5.2
Grŵp ethnig arall	0.0	0.6
Grŵp ethnig cymysg neu luosog	0.0	1.2
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig	0.0	1.6
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd	0.0	0.7

Roedd ymgysylltiad cymunedol a gynhaliwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned Portiwgaleg, ffoaduriaid a cheiswyr lloches o'r Wcráin, Syria, Afghanistan ac Irac ac ymgysylltu ag aelodau o ganolbwynt amlddiwylliannol Gogledd Cymru, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r cymunedau Prydeinig, Portiwgaleg, Pwylaidd, Affricanaidd ac Asiaidd.

5.3.5. Anabledd



A yw eich gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Ydyn - wedi'u cyfyngu'n arw	8	6.5
Ydyn - wedi'u cyfyngu ychydig	18	14.6
Nac ydynt	89	72.4
Mae'n well gen i beidio â dweud	8	6.5
Cyfanswm	**123**	**100.0**



Gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis?	Canran yr ymatebwyr i arolwg Cynllun y Cyngor 2023-2028 (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran y boblogaeth, Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyfrifiad 2021)
Ydyn - wedi'u cyfyngu'n arw	6.5	9.3
Ydyn - wedi'u cyfyngu ychydig	14.6	11
Nac ydynt	72.4	79.6

Roedd canran y bobl a ddywedodd fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis yn weddol debyg ar gyfer ymatebwyr i'n harolwg o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

5.3.6. Beichiogrwydd a mamolaeth

Dywedodd 1 ymatebydd ei bod yn feichiog ar yr adeg y cynhaliwyd ein harolwg.

5.3.7. Cyfeiriadedd rhywiol



Pa rai o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Heterorywiol neu strêt	101	81.5
Dyn Hoyw	3	2.4
Menyw Hoyw / Lesbiad	1	0.8
Deurywiol	3	2.4
Arall	1	0.8
Mae'n well gen i beidio â dweud	15	12.1
Cyfanswm	**124**	**100.0**

Pa rai o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?	Canran yr ymatebwyr i arolwg Cynllun y Cyngor 2023-2028 (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran y boblogaeth, Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyfrifiad 2021)
Heterorywiol neu strêt	81.5	89.62
Hoyw neu lesbiaidd	3.2	1.31
Deurywiol	2.4	0.95
Arall	0.8	0.22

Mae'r graff a'r tablau uchod yn dangos bod y rhai o dueddiadau rhywiol gwahanol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael eu cynrychioli mewn adborth mewn ymateb i'n harolwg.

5.3.8. Crefydd neu gred – gan gynnwys dim cred



Beth yw eich crefydd neu eich cred?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Dim Crefydd	29	23.8
Cristion (pob enwad)	76	62.3
Bwdhydd	0	0.0
Hindŵ	0	0.0
Iddewig	0	0.0
Sikh	0	0.0
Anffyddiwr	3	2.5
Arall	1	0.8
Mae'n well gen i beidio â dweud	13	10.7
Cyfanswm	**122**	**100.0**



Beth yw eich crefydd neu eich cred?	Canran yr ymatebwyr i arolwg Cynllun y Cyngor 2023-2028 (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran y boblogaeth, Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyfrifiad 2021)
Dim Crefydd	23.8	41.8
Cristion (pob enwad)	62.3	49.5
Mwslim	0	1.1
Hindŵ	0	0.2
Sikh	0	0.4
Crefydd arall	0.8	0.4

Roedd ymgysylltiad cymunedol ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys ymgysylltu â phobl o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol gwahanol. Er na wnaethom ofyn yn benodol i bobl am eu crefydd neu gred wrth ymgysylltu â'r gymuned, mae'n rhesymol tybio y byddai'r rheiny y buom yn ymgysylltu â nhw wedi bod â chredoau crefyddol gwahanol.

5.3.9. Priodas a phartneriaeth sifil



A ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer yr ymatebwyr (cwestiynau monitro cydraddoldeb)	Canran yr ymatebwyr (dim ond yn cynnwys y rheiny a atebodd y cwestiynau monitro cydraddoldeb)
Ydw	77	62.6
Nac ydw	34	27.6
Rwy'n unigolyn ifanc dan 18 oed	2	1.6
Mae'n well gen i beidio â dweud	10	8.1
Cyfanswm	**123**	**100.0**

Gofynnodd Cyfrifiad 2021 gwestiwn manylach am statws priodasol/partneriaeth sifil na'n harolwg ni. Felly nid oes modd cymharu'r data yn uniongyrchol, ond mae'n dangos bod oddeutu 45.8% o gyfanswm poblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn briod neu mewn partneriaeth sifil a bod oddeutu 54.1% heb briodi neu ddim mewn partneriaeth sifil ar adeg y Cyfrifiad.

5.3.10. Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol

Yn ein harolwg, gofynnwyd dau gwestiwn am dderbyn budd-daliadau ariannol, gyda'r atebion i'r cwestiynau hyn yn debygol o ddangos a yw pobl yn profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

1. Ydych chi neu eich aelwyd yn cael budd-daliadau prawf modd (Er enghraifft: Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith, Credydau Treth, Lwfans Gofalwyr, Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor)?
2. Ydych chi neu unrhyw un sy'n byw yn eich aelwyd yn cael budd-daliadau anabledd (Er enghraifft: Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Bersonol, Taliad Annibynnol y Lluoedd Arfog, Lwfans Gweini Cyson, Atodiad Symudedd Pensiwn y Rhyfel)?

Atebodd pump o ymatebwyr yr arolwg 'Ydw' i'r ddau gwestiwn hyn. Yn ogystal, fe wnaethom ymgysylltu â phobl a oedd wedi cael profiad byw o amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn Canolfannau Clyd, Clwb Bwyd ac mewn sesiynau galw heibio i Ffoaduriaid.

5.4. Trin pawb yn deg

Fel arweinydd cymunedol cryf a chynhwysol, rydym ni am sicrhau bod pawb sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial, ffynnu a sicrhau lles da. Mae gennym ni hefyd ddyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg a hefyd ein bod ni'n ystyried effaith ein penderfyniadau ni i gyd ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ogystal â dadansoddi sut yr oedd adborth yn amrywio ar sail oedran, rhywedd a nodweddion cydraddoldeb eraill yn ein harolwg ar-lein, gofynnwyd rhai cwestiynau penodol i gael adborth ynghylch pa mor deg oedd blaenoriaethau a chanlyniadau cynllun drafft y Cyngor ym marn pobl.



Ydych chi'n credu y gallai blaenoriaethau a chanlyniadau cynllun drafft y Cyngor sydd wedi'u rhestru dan bob blaenoriaeth roi unrhyw grŵp o bobl neu unigolion dan anfantais neu wneud pethau'n annheg iddynt?	Nifer yr ymatebwyr ('Trin pawb yn deg')	Canran yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau 'Trin pawb yn deg'
Ydw	30	19.6
Nac ydw	73	47.7
Ddim yn siŵr	50	32.7
Cyfanswm	153	100.0

Roedd 19.6% o ymatebwyr yr arolwg o'r farn y gallai blaenoriaethau a chanlyniadau cynllun drafft y Cyngor sydd wedi'u rhestru dan bob blaenoriaeth roi rhai grwpiau o bobl neu unigolion dan anfantais neu wneud pethau'n annheg iddyn nhw, ac nid oedd 32.7% o'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn siŵr.

Yr adborth cyson a gafwyd gan bobl a oedd yn credu y gallai rhai pobl fod dan anfantais, oedd:

- Gallai canolbwyntio ar grwpiau lleiafrifol/bach neu faterion penodol arwain at anfantais (neu ganfyddiad o anfantais) i grwpiau mwy neu'r boblogaeth ehangach
- Mae pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig dan anfantais oherwydd nid oes ganddyn nhw'r un cyfle ag eraill i gael gafael ar wasanaethau
- Dywedodd eraill y gallai pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl neu iechyd corfforol hirdymor a'u gofalwyr, oedolion diamddiffyn a phlant sy'n derbyn gofal fod dan anfantais, yn ogystal â phobl y mae angen cludiant cyhoeddus a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw.

Roedd pobl yn credu y gallai'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau gael ei wneud yn decach drwy:

- Cefnogaeth gyffredinol ar gyfer canolbwyntio ar roi'r un cyfleoedd i bawb
- Canolbwyntio ar wella ffyrdd o gysylltu mewn cymunedau a rhwng cymunedau.
- Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i ymwneud â'r Cyngor a bod y Cyngor yn gwrando ac yn ymatebol
- Rhagor o gyllid i ofal cymdeithasol

Dywedodd eraill y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar wasanaethau a chymorth ataliol, gwella cludiant cyhoeddus a dewisiadau teithio llesol, darparu ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a gwneud defnydd da o dechnoleg newydd.

Wrth ystyried effaith ein penderfyniadau ni ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg:

- Roedd rhai pobl yn credu y dylid hyrwyddo'r Gymraeg a Wrecsam fel lle Cymreig yn fwy

Awgrymodd eraill:

- Llai o bwyslais ar hyrwyddo’r Gymraeg a theimlad er y dylai’r Gymraeg gael ei chefnogi, y dylai hyn fod yn gymesur; a pheth ystyriaeth am yr adnoddau a ddyrennir ar gyfer darpariaeth Gymraeg
- Dylid gwella ansawdd addysgu yn y Gymraeg a’r cynnig i gael addysg Gymraeg mewn ysgolion
- Cyfle i ddewis peidio â chael deunydd cyfathrebu dwyieithog a rhagor o gyfleoedd i gyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg
- Cynhyrchu strategaethau a chynlluniau ar y cyd â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg

Mae canfyddiadau'r cwestiynau penodol hyn ynghylch trin pawb yn deg, ac ystyried effaith ein holl benderfyniadau ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg, wedi bwydo i mewn i'r themâu trawsbynciol a nodwyd yn ein hymgynghoriad yn ei gyfanrwydd ac wedi ein helpu ni i gyflawni Cynllun y Cyngor sydd wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau gwell a thecach i bawb.

5.5. Cwestiynau monitro ansawdd yr arolwg

Ar ddiwedd ein harolwg argraffedig ac ar-lein, gwnaethom ni ofyn pum cwestiwn byr am brofiad pobl o gwblhau ein harolwg. Roedd dros 80% o’r bobl a gymerodd ran yn ein harolwg ni ac ateb y cwestiynau monitro ansawdd wedi nodi ei fod yn rhwydd iawn neu’n eithaf rhwydd i’w gwblhau.

Gwnaethom ni hefyd ofyn i bobl a oedden nhw’n credu ein bod ni wedi gofyn y cwestiynau cywir am Gynllun y Cyngor 2023-2028. Roedd ychydig yn llai na 47% o’r bobl a ymatebodd yn credu ein bod ni wedi gofyn y cwestiynau cywir, tra bod 53% wedi ymateb yn dweud nad oedden nhw’n siŵr neu wedi ateb â ‘na’.

Pan ofynnom ni i bobl a oeddem ni wedi bod yn eglur wrth ofyn y cwestiynau, dywedodd 68% ‘do’, a dywedodd 32% ‘na’ neu ‘ddim yn siŵr’.

Bydd yr adborth hwn yn cael ei ddadansoddi a'i ystyried ar gyfer arolygon yn y dyfodol, fel y gallwn ni fod yn fwy hyderus ein bod ni’n gofyn y cwestiynau cywir i bobl mewn ffordd sy'n eglur i bawb.

6. Casgliadau

Mae ein hymgynghoriad wedi ein galluogi ni i ddeall y themâu allweddol sy’n wirioneddol bwysig i bobl yn ein cymunedau. Pethau fel sicrhau bod yr un gwasanaethau ar gael i bawb, cyfle i bawb gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau’r Cyngor, arweinyddiaeth gref, meithrin cysylltiadau rhwng cymunedau a sefydlu ein Cynllun Datgarboneiddio. Mae'r rhain a themâu trawsbynciol eraill bellach wedi'u plethu drwy

gynllun newydd y Cyngor. Mae adborth, syniadau a safbwyntiau manwl wedi'u trosglwyddo i'r adrannau a'r gwasanaethau perthnasol i'w hystyried ymhellach.

Mae ein hymgynghoriad wedi ein helpu ni i wneud diwygiadau i ganlyniadau lle bo angen er mwyn sicrhau eglurder a ffocws. Rydym ni hefyd wedi gallu deall yr hyn sy'n bwysig i wahanol grwpiau yn ein cymunedau. Yn ogystal â hyn, mae nifer o ymatebwyr wedi gwneud awgrymiadau defnyddiol, sydd wedi'u trosglwyddo i'r adrannau perthnasol.

Rydym ni'n parhau i weithio i gydbwyso faint o wybodaeth y mae angen i ni ei rhoi i bobl mewn ymgynghoriad fel hwn i'w wneud yn ystyrlon i bobl a fyddai'n dymuno rhoi adborth i ni, ochr yn ochr â'r angen i wneud ein hymgynghoriadau ni'n hawdd i'w deall ac ymateb iddyn nhw.

Rhoddodd ein harolwg gyfle i ni gysylltu yn eang â phobl ledled ein Bwrdeistref Sirol, ac fe wnaethom ni hefyd ymgysylltu â phobl yn eu grwpiau cymunedol eu hunain. Roedd yr ymgysylltiad cymunedol hwn yn rhan amhrisiadwy o'r broses ymgynghori, a byddem ni'n dymuno ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol os bydd adnoddau'n caniatáu.

Hoffem ddiolch i bawb wnaeth ein helpu ni i drefnu a hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys y gymuned, dosbarthu taflenni a phosteri ac a wnaeth ein helpu ni i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Yn bennaf oll, hoffem ddiolch i bawb am eu barn, eu syniadau, eu safbwyntiau ac am rannu eu profiadau o fyw yn eu cymunedau gyda ni, er mwyn ein helpu ni i lunio ein cynllun fel ei fod yn rhywbeth a all berthyn i ni i gyd.

Cytunodd y Cyngor llawn ar Gynllun y Cyngor 2023-2028 ym mis Rhagfyr 2023 ac mae bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.